

ECO'R WYDDFA

Rhif 237

MEDI 1997

Pris 30c

Ai Llainwerdd fydd Llainwen?



O CHRISTCHURCH I EGLWYS CRIST

Pam tybed yr aeth Cymro o'r enw Evan Parry (a aned yn 1865) yn ddyn cymharol ifanc i ben draw'r byd? Ffordd go dda o drin y diciâu y dyddiau hynny, medden nhw, fyddai mynd ar fordaith hir a chael newid byd go iawn. Ai dyna pam y derbyniodd swydd fel peiriannydd trydanol yn Seland Newydd? Neu a oedd y ffaith fod newidiadau cymdeithasol ar droed ar y pryd yn Seland Newydd a bod hynny wedi bod yn abwyd i ddenu un oedd yn teimlo fod angen y math yma o newidiadau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo datblygiad ym myd perianeg, ac mai dyna a barodd iddo deithio cyn belled i fod yn brif beiriannwr trydanol cyntaf y wlad honno. Pwy â wŷr?

Mynd a wnaeth beth bynnag. Ac fel ninnau pan bwyswn swits y golau neu pan wthiwn blwg i'r wâl heb feddwl ddwywaith am y peth mae miloedd o bobl yn Seland Newydd na wyddant gymaint oedd cyfraniad gŵr o Gymru yn holl broses sefydlu rhwydwaith trydan eu gwlad.

Mab i William ac Elizabeth Parry fu'n byw ym Mron Elidir, Dinorwig oedd o. Aeth i astudio ym Mhrifysgol Glasgow a bu'n fyfyrwr yno i Syr William Thomson (Lord Kelvin) ac ar ôl graddio arhosodd yno am ychydig o flynyddoedd yn ddarlithydd Ffiseg.

Yn 1893 aeth i weithio gyda'r London Electric Supply Company. Roedd gorsaf bŵer Deptford yno wedi ei hagor bedair blynedd ynghynt ac ar ôl dwy flynedd yno symudodd ymlaen i gynllunio peiriannau trydanol i'r British Thomson Houston Company. Wedyn bu'n gysylltiedig â Dr Horace Parshall, peiriannydd ymgynghorol yn Llundain oedd yn arbenigo mewn rheilffyrdd a thramffyrdd trydanol.

Roedd hi'n adeg arswydus ym myd trydan tua throad y ganrif. Dadlau mawr na ddylai'r cyflenwad domestig fod yn ddim mwy na 110 folt ac na ddylai goleuadau'r stryd fod yn fwy na 400 folt. Roedd rhai yn gefnogol i'r system DC (Direct Current) ac eraill i'r system AC (Alternating Current). I hoelion wyth cwmnïau'r post, telegraph a'r rheilffyrdd roedd gwifrau noeth yn cario trydan yn ddigon o felltith ynddo'i hun ond roedd cael gwifrau yn cario 66,000 folt yn rhywbeth diefflig iawn. Honnir

i Evan Parry fedru cynnal y diwydiant newydd yma gyda dirnadaeth ddoeth a gofalus, y math o ddirnadaeth a fedd trydanwyr ein dyddiau ni ond nad oedd yn perthyn i lawer ar ddechrau'r ganrif.

Wedi iddo fynd draw i Seland Newydd yn 1911 cynghorodd y llywodraeth yno i fabwysiadu foltedd o 11,000v ar gyfer trawsyriant swmp o bŵer; 11,000v hefyd ar gyfer trawsyriant lleol a foltedd 400/250v gyda system M.E.N. (multiple-earthed & neutral) 50 cylchdro i ddosraniad lleol ar gyfer y defnyddiwr. Roedd y penderfyniadau yma ar y blaen yn ôl safonau'r byd yr adeg honno ac yn dangos blaengarwch Evan Parry fel trydanwr yn ei waith ynglŷn â thrawsyriant a dosbarthiad trydan. Bu ei benderfyniadau yn gyfraniad buddiol iawn i les economaidd Seland Newydd.



Ond nid yn unig gyda'r broses o sefydlu rhwydwaith i ddosrannu trydan yn Seland Newydd yn unig y cysylltir Evan Parry ond hefyd gyda'i waith yn y broses o gynhyrchu'r trydan yn y lle cyntaf. Roedd cystadleuaeth fawr ar y pryd rhyngddynt â gwlad y Swisdir a'u cynlluniau trydan-dŵr. Gwelai Evan Parry werth defnyddio dŵr i gynhyrchu trydan. Roedd nwy, olew a glo yn darford wrth eu defnyddio ond gallai dŵr gael ei ddefnyddio drosodd a throsodd. Roedd y tirwedd yn ffafriol yn Seland Newydd a'r adnoddau yno, mynydd-dir, llynnoedd a glawiad blynyddol uchel a chynlluniodd Evan Parry ei Orsaf Drydan-dŵr gyntaf yn Alpau'r De ar Lyn Coleridge uwchlaw Christchurch



Mae trigolion un gornel o Lanberis yn awyddus i weld lle cyn o dir glas yn cael ei ddiogelu at ddefnydd y gymuned leol. Mae'r darn tir yn ffinio â Lôn Tŷ Du a Llainwen Isaf. Gobaith y rhai sy'n byw o'i gwmpas yw y gellir sicrhau statws llain pentref (*village green*) ar ei gyfer. Byddai hynny'n diogelu'r tir at ddefnydd traddodiadol yr ardalwyr ac yn atal unrhyw ddatblygiad a fyddai'n amharu ar y defnydd hwnnw.

Bu'r bobl leol yn defnyddio'r cae hwn o flaen tai Llainwen Isaf yn ddirwystr trwy'r blynyddoedd. Mae cenedlaethau o blant wedi arfer chwarae yno. Erbyn hyn dyma un o'r mannau prin lle gwelir plant o hyd yn chwarae ar y creigiau ac yng nghanol y rhedyn ac ar siglen raff yn y coed. Cafwyd nosweithiau tân gwyllt ar y tir. Mae yno ddwy ffrwd a cheir penbyliaid a chreaduriaid bychain eraill mewn pyllau yno.

Mae'r trigolion yn casglu tystiolaeth i'w anfon gyda'u cais i gofrestru'r tir fel llain pentref dan y ddeddf Cofrestru Tir Newydd (1969). Rhaid profi bod y tir wedi ei ddefnyddio gan y gymuned leol am o leiaf 20 mlynedd. Os oes gan unrhyw un ohonoch luniau o blant yn chwarae ar y tir neu luniau unrhyw fath o weithgaredd cymdeithasol arall cysylltwg â Mr a Mrs Tom E. Jones, 2 Llainwen Isaf. Mae ganddynt hwy hefyd ffurflenni syml y gall pobl eu llenwi i ddangos eu bod wedi defnyddio'r tir. Pob hwyl i'r ymdrech.

ar yr Ynys Ddeheuol. Roedd hynny cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Gwelai fod angen mwy nag un cynllun o'r fath i gyflenwi'r Ynys Ogleddol ac argymhellodd godi un yn Mangahao, Llyn Waikaremoana ac un yn Arapuni, fuasai gyda'i gilydd yn cyflenwi'r Ynys Ogleddol i gyd â thrydan a chodwyd 29 o isorsafoedd a 1,400 milltir o wifrau i ddosbarthu'r pŵer i'r bobl. Ar ei gymhelliad ef hefyd y codwyd ail orsaf o'r fath ar yr Ynys Ddeheuol wedyn. Y tro yma ar Lyn Manowai.

Yn sicr fe adawodd Evan Parry ei farc ar Seland Newydd ac enwyd adeilad Adran Drydan y Llywodraeth yn Princes Street, Dunedin ar ei ôl. Daeth yn ei ôl i Brydain yn 1919 yn bartner yng nghwmni Preece, Cardew & Rider pryd, yn rhinwedd ei swydd gyda'r cwmni, y trafaeliodd i Rwsia i lunio

(ymlaen i dudalen 13)

ECO'R WYDDFA

Rhif 237
MEDI 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, HYDREF 2

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MEDI 22

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
HYDREF	HYDREF 2	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 30	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 27	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (01248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (01286) 650556

DEINIOLLEN: Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos y Faenol (01286) 871174

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (01286) 872390

MARATHON LLUNDAIN

Annwyl Olygydd,

Ar 13eg o Ebrill eleni cefais y fraint
o redeg Marathon Llundain dros un
o achosion da yr ardal, sef 'Cronfa
Steffan Price Jones' o Lanrug.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i
bawb a gymerodd ffurflen nodd i
gasglu arian dros y gronfa.

Hefyd hoffwn ddiolch i drigolion yr
ardal am gyfrannu mor hael tuag at
y gronfa. Y cyfanswm terfynol yw
£1,359.90.

Diolch yn fawr iawn i bawb.

Yn gywir,

GWILYM WILLIAMS
32 Bro Rhos, Bethel

CYNHALWYR

Annwyl Ddarllenydd,

Ydych chi'n gynhalydd? Ydych chi
ddim yn siŵr? Wel, os ydych chi'n
gofalu am berthynas neu ffrind sy'n
sâl, yn anabl, yn hen neu'n fregus
yna rydych chi'n gynhalydd.

Ydych chi'n gwybod am y budd-
daliadau a'r gwasanaethau sydd ar
gael i'ch helpu? Ydych chi'n gwybod
am yr hawliau newydd sydd
gennych o dan Ddeddf
(Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau)
Cynhalwyr? Ydych chi'n teimlo nad
oes neb yn deall eich sefyllfa chi ac
yr hoffech chi gael siarad â rhywun
sy'n gwybod beth yw bod yn
gynhalydd. Mae Cymdeithas Gened-
laethol y Cynhalwyr yn awyddus i
glywed gennych chi.

Rhan bwysig o waith Cymdeithas
Genedlaethol y Cynhalwyr yw
cefnogi a datblygu grwpiau o
gynhalwyr a chynlluniau, hybu
cynhalwyr ifanc, cynhyrchu
deunyddiau dwyieithog a rhoi
gwybodaeth i gynhalwyr a phobl
broffesiynol.

Os hoffech chi dderbyn pecyn
gwybodaeth neu os hoffech chi
sgwrsio ag un o'n staff, yna
cysylltwch â ni yn ein swyddfa ar
Stad Ddiwydiannol Pant Glas,
Bedwas, Casnewydd NP1 8DR. Ein
rhif ffôn yw (01222) 880176.

Yn ddiffuant,

GWENDA WILLIAMS
MAGGIE TITTERTON

Lles y Cyhoedd neu Hunanoldeb?

Ys gwn i faint o'r cyhoedd fyddai'n
cytuno â mi gyda'r sylwadau
canlynol? Rydym yn byw mewn oes
faterol a haerllug dros ben, mentraf
drwy enwi y prif reswm —
ariangarwch. Mae mwy o wirionedd
yn y ffaith am ein Cynghorwyr Sir
heddiw na fu erioed yn eu hanes ac
fel Cynghorau. Mae rhan helaeth
ohonynt mewn swyddi da, a thrwy
hynny yn cael arian a safleoedd lle
maent yn cael mwy o sicrwydd na
rhan fwyaf o weithwyr y dyddiau
sydd ohoni.

Rhai blynyddoedd yn ôl os oedd
gŵr neu wraig yn cael eu hethol yn
Gynghorydd byddai hynny yn
digwydd am fod yr ardal yn ffyddiog
ynddynt, gan bod ef neu hi wedi
gweithio'n ddiwyd mewn llawer
maes, efallai am flynyddoedd, yn
wirfoddol. Roedd y fraint o gael bod
yn Gynghorydd yn tystio cymaint o
gariad at y gymdeithas yr oeddent yn
rhan ohoni, a chario'r ddyletswydd

am 'y nesaf peth i ddim'. Mae'n
hollol wahanol heddiw.

Peth arall sy'n orfodol i'r cyhoedd
wneud yn ddiweddar, drwy ymbilio
a brwydro am eu iawnderau eu
hunain er mwyn cael 'y maen i'r
wal', nid oes neb ohonynt yn cael
gronyn o dâl am eu hamser na'r
gweithgaredd. Ond os yn llwyddian-
nus yna mae Cynghorwyr gyda
digon o wyneb i dderbyn y clod a'r
bri, gyda'u lluniau yn y papurau
newyddiadurol. Tybed bod 'hunan
frwydro' yn ffordd ar gyfer y dyfodol,
ac i'r perwyl hwnnw, osgoi peth
cynnydd mewn trethi Cyngor?

Dyfaes sy'n ehangu llawer yn
ddiweddar yw yr 'Internet', bydd yna
le pwysig iawn yn lled fuan iddo, a
gobeithio y bydd y math yna yn
ysgafnhau beichiau o dalu yn
ddrudfawr i'n Cynghorwyr.
Edmygaf y Cynghorydd (nepell o'r
ardal yma) am iddo siarad yn
gyhoeddus ynglŷn â gwarth o beth
bod 'Cynghorwyr yn cael eu cinio,
pan mae pwyllgorau, yn rhad ac am
ddim; ond ar ben hynny yn cael tâl
ychwanegol am yr awr (neu ddwy)
ginio.' Ys gwn i faint o'm cyd-
ardalwyr sy'n gwybod bod
Cynghorwyr yn cael eu talu am
deithio, tâl am bob pwyllgor, ond yn
bennaf oll, tâl sylweddol tra maent
i ffwrdd ar wahanol swyddi dyddiol.

Terfynnaf drwy annog inni'r
cyhoedd ddeffro a pheidio bod yn
llwfr ac 'i adael llwch ein dallu'.
Rwy'n sicr bod yna ffordd rhatach o
lawer i 'gael y maen i'r wal' na
Chynghorwyr sy'n rhedeg a
chwerthin yr holl ffordd i'r Banc!

Yr eiddoch yn gywir,

JOHN LLEWELYN WILLIAMS
Pen-y-Golwg, Deiniolen

CANMLWYDDIANT YSGOL DYFFRYN NANTLLE

Fuoch chi'n ddisgybl yn Ysgol
Dyffryn Nantlle?

Fel rhan o ddathliadau can-
mlwyddiant yr ysgol bwriedir
cyhoeddi llyfryn yn cynnwys
gwybodaeth a hanesion difyr o'r
gwahanol gyfnodau.

Os oes gennych atgofion
diddorol, pytau, ffeithiau neu
luniau yn cynrychioli gwahanol
agweddau o fywyd yr ysgol —
timau o bob math, disgyblion,
athrawon, enillwyr, ac ati,
buasem yn ddiolchgar o'u
derbyn.

Gwerthfawrogi unrhyw
gyfraniad mor fuan â phosibl er
mwyn bwrw 'mlaen â'r gwaith
i'r cyfeiriad isod:

Prifathro Ysgol Dyffryn Nantlle
Ysgol Dyffryn Nantlle
Ffordd y Brenin
Pen-y-groes
Gwynedd



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Emyr Jones PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513

hefyd
(0374)
496616
(symudol)



Teyrnged i Beth

Yn gynnar ar fore Sadwrn, Awst 9 yn Ysbyty Gwynedd, bu farw un o drigolion mwyaf annwyl yr ardal, sef Nyrs Beth.

Bu Beth yn gweinyddu yn ardal Llanberis, Llanrug, Cwm-y-glo a Deiniolen am gyfnod o dros dri deg o flynyddoedd ac yn aelod hynod o weithgar o dim iechyd yr hen glinig yn Ffordd Capel Coch a'r syrjeri newydd yn Llanberis. Roedd hi'n ffigwr adnabyddus i bawb gan iddi ddod i gysylltiad â bron pob aelwyd yn rhinwedd ei swydd. Roedd hi'n nyrs broffesiynol iawn ymhob ystyr, yn ei hagwedd, ei ffordd o drin pobol, y safon a osododd iddi ei hun ac i'r myfyrwyr nyrsio fu dan ei gofal. Clywyd llawer un a fyddai wedi bod allan yn y gymuned yng ngofal Beth yn dweud, 'Roedd hi fel mam i mi'. Yn y clinic roedd hi'n aml i'w chlywed yn siarsio'r nyrsus ifanc dibrofiad i edrych ar ôl eu hunain. Byddant yn dod o'r ysbyty yn eu hiwniffurms cotwm gwyn yng nghanol gaeaf a Beth wrthi, 'Gofala dy fod ti'n gwisgo sana tew a chardigan fory neu mi fyddi di wedi fferu!' Yn gymeriad hoffus, cymwynasgar a diffuant, roedd gan Beth amser i bawb a bu yn un o'r goreuon i gydweithio â hi.

Does dim posib meddwl

amdani 'chwaith heb chwerthin. Cafwyd llawer o hwyl yn ei chwmni. Bu criw'r clinic am gyfnod yn cystadlu'n frwd yn Ffug Eisteddfod Eco'r Wyddfa a rhoddodd Beth sawl ymddangosiad bythgofiadwy! Unwaith fel palmwydden deg a'r gweddill ohonom yn dawnsio'r 'hula' o'i chwmpas. Dro arall fel Iarlles yr Wyddfa wedi gwisgo haenen ar ben haenen o ddillad a'u tynnu fesul un i fiwsig enwog y 'Stripper'.

Oedd, roedd Beth yn meddu ar bersonoliaeth gynnes, yn llawn hiwmor ac yn uchel iawn ei pharch gan y cleifion, pobol yr ardal a'i chydweithwyr. Prawf o hyn oedd y nifer fawr oedd wedi dod ynghyd i'w hangladd.

Bu'n dioddef o afiechyd brwnt ers dwy flynedd heb gwyno ac aeth trwy driniaethau blin gyda dewrder ac urddas. Magodd gyda Hefin dri o hogiau ardderchog sydd yn glod i'w rhieni. Dymuniad pennaf Beth oedd cael gweld y tri yn graddio a braf ei bod wedi cael gwireddu'r ddymuniad honno.

Mawr fydd y golled nid yn unig i'w theulu ond i'r ardal, i'w chydweithwyr ac i'w ffrindiau.

Erys ei gwên hynaws yn ein cof am byth. Braint oedd cael ei hadnabod.

CERI PIERCE WILLIAMS

CHWAREL LECHI FODERN

Arddangosfa a drefnwyd gan Chwarel Lechi Y Penrhyn yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

Pleser mawr ar ran Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis yw cyflwyno arddangosfa a drefnwyd gan Chwarel Lechi Y Penrhyn, Bethesda, fel prif atyniad yr haf.

Drwy gyfrwng 'Chwarel Lechi Fodern' gobeithir cilio rhag yr elfen atgofus gan ganolbwyntio ar y presennol a ffyniant y diwydiant modern hwn. Gwneir defnydd o gyfrifiaduron, arddangosfeydd 3 dimensiwn a ffotograffau lliw gan greu arddangosfa ag iddi elfennau rhyngweithiol cyffrous. Mae modd i'r ymwelydd ddilyn pob

cam o'r diwydiant a chael cipolwg prin ar chwarel lechi fodern wrth ei gwaith.

Dywed y Ceidwad, Mr Dafydd Roberts: 'Drwy gynnal arddangosfa o'r fath o fewn yr Amgueddfa Lechi, sylweddolir pwysigrwydd y diwydiant llechi, nid yn unig fel rhan o'n diwylliant, ond fel ffactor pwysig yn natblygiad a dyfodol economi Cymru, gartref yn ogystal ag o fewn y farchnad ryngwladol.'

Bydd yr arddangosfa ar agor yn ddyddiol o 9.30 a.m. hyd 5.30 p.m. Codir tâl mynediad.

ANTUR

WAUNFAWR

Ar agor Llun - Gwener
9.00 a.m. - 4.00 p.m.
Ffôn: (01286) 650721

Diolch i bawb a alwodd yn stondin Antur
Waunfawr yn Eisteddfod Genedlaethol
Meirion, Y Bala

DYDDIADUR YR ANTUR AM FIS MEDI

Nos Wener, Medi 5: GŴYL Y GWYLL yn y Parc Natur o 8p.m. ymlaen. Noson i astudio ystlumod gwyfynnod a'r sêr yng nghwmni arbenigwyr. Darperir lluniaeth i gynhesu. Croeso cynnes i bawb. Dewch â dillad addas.

Dydd Sadwrn, Medi 27: RAS ANTUR WAUNFAWR '97. Ras 10c a Ras Hwyl, i gychwyn o'r ganolfan am 2p.m. Y gŵr gwadd yn cychwyn y ddwy ras a chyflwyno'r medalau fydd JONSI o Radio Cymru. Croeso i bawb ddod i redeg neu i wyllo. Stondinau a lluniaeth ar gael.

Cyfarfod yn Conway, America . . .



Fis Mai eleni teithiodd Liz Roberts a'i gŵr Dei i Canada ac America gyda Chôr Meibion y Maelgwn o gyffiniau Llandudno. Gwahoddwyd y Côr i ganu mewn pentref bychan o'r enw Conway yn America, ac yno fe gyflwynwyd anrheg i Faer Conway oddi wrth Faer Conwy, Gwynedd. Wedi i'r Côr ganu 'Myfanwy' allan ar y stryd fawr fe aeth pawb am ginio i'r Conway Tavern. Cafodd Liz andros o sioc pan roddodd rhywun ei law ar ei hysgwydd a darganfod mai Dic, East Lynne, Llanberis oedd yno! Roedd o wedi clywed am daith y côr ac wedi dod yn unswydd o'i gartref yn Bainbridge Island, Seattle, UDA, i wrando arnynt.


Cawsant gwmni Dic a'i wraig, Phyllis, Nerys ei ferch ieuengaf a'i gŵr, am ddwy noson arall

mewn dau gyngerdd yn Seattle. Roedd yn braf cael sgwrsio â Dic a gellwch fentro fod yno hen holi am Lanberis a'i phobol!

Y mae Dic yn cofio atoch i gyd ac yn edrych ymlaen at ymweld a'i ddwy ferch Ellen a Mari ato i Seattle yr haf yma.

East Lynne, Stryd Fawr, Llanberis oedd cartref Dic a 7 Stryd Siarlott, Llanberis oedd cartref Liz ac fe fagwyd y ddau yng Nghapel Gorffwysfa flynyddoedd maith yn ôl bellach.

. . . a chofion o Carnarvon, Canada



Tynnwyd y llun hwn o Mrs Helen Graville, merch Mrs Jenny Hughes, 17 Hafan Elan, Llanrug, yn Carnarvon, Canada.

ADUNIAD BLWYDDYN 1957

Cynhelir aduniad yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, nos Sadwrn, 25 Hydref 1997 am 7.30 p.m.

Croeso cynnes i bawb a ddechreuodd yn Ysgol Brynrefail yn 1957.

Cysylltwch â
OWENA L. PARRY
ar (01286) 872276
cyn diwedd mis Medi



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

O SIAMBAR SELWYN

Dwi'n credu i mi awgrymu yn y golofn hon rai misoedd yn ôl fod Jones Sgwyl wedi 'deud celwydd' wrtha i pan oeddwn i'n grwtyn bach diniwed yn Ysgol Bethel yn ystod y tridegau.

Do, mi ddwedodd o fod llongwrs profiadol yn ofni croesi Bae Biscay am ei bod yn stormus yno bob amser. Wel, bob tro rydw i wedi croesi Bae Biscay mae o wedi bod mor dawel â Llyn Padarn.

Jones Sgwyl ddwedodd wrtha i hefyd 'i bod hi'n annioddefol o oer os ewch chi i gyfeiriad Pegwn y Gogledd. Wel, ddechrau'r haf 'ma mi fûm i o fewn dwy fil o gilometrau i'r Pegwn ac yn naturiol ddigon roeddwn i wedi mynd a digon o ddillad cynnes efo fi. O, oedd, mi roedd 'na eira o'n cwnpas ni ym mhobman ym mhen ucha Norwy ac mi roedd y mynyddoedd uchel dan blanced drwchus o eira.

Doedd hi ddim yn oer yno ac yn wir ddisgynnodd 'na'r un bluen eira drwy gydol y fordaith, na'r un tropyn o law o ran hynny. Na, dim ond haul a gawsom ar ein taith i'r North Cape, a phrofiad bythgofiadwy oedd cael gwledd ar fwrdd y llong *Black Prince* a ninnau yn y '*Land of the Midnight Sun*'. Haul canol nos yn dân ar y gorwel, a'n dillad gaeaf yn ddiogel yng nghaban y llong. Ydy, mae'n anodd deall y tywydd, yntydi?

Cofiwch chi fe gawsom ni storm y noson gynta wrth groesi Môr y Gogledd. Oedd, roedd y *Black Prince* yn cael ei sgytian. Tybed a oedd Jones Sgwyl wedi

camgymeryd rhwng Môr y Gogledd a Bae Biscay? Na, digon o waith. A phetaem ninnau wedi mentro yn nes at y Pegwn mae'n bur debyg y byddem wedi dod a'r dillad gaeaf allan o'r caban yn weddol sydyn.

Wel, dyna 'Steddfod Bro Meirion drosodd. Wythnos brysur ond wythnos o fwynhad. Er mor hoff rydwi o grwydro fyddwn i byth yn ystyried mynd o'r hen wlad 'ma yn ystod wythnos y brifwyl, ac mi fyddwn i'n teimlo'n anniddig iawn petawn i am ryw reswm yn methu â mynd i'r 'Steddfod.

Roeddwn i'n hynod falch o gael y fraint o gyrchu'r Prifardd newydd o Fôn i'r llwyfan. Mae amryw wedi gofyn i mi, am beth roeddwn ni'n sgwrsio wrth gerdded tua'r llwyfan. Wel, mi ddweda i wrthach chi — awgrymu roeddwn i Cen godi ychydig ar ei glogyn wrth ddringo'r grisau i'r llwyfan rhag ofn iddo faglu. Cyngor doeth iawn gan fod y fideo sy gen i o'r coroni yn Llanrwst yn dangos yn glir fel y bu i mi faglu wrth gyrraedd y llwyfan, ac rwy'n siŵr nad oes yr un Prifardd yn awyddus i landio fel lleden o flaen yr Archdderwydd!

Rwy'n edrych ymlaen yn barod at Brifwyl Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yn ymweliad â'r dre union hanner can mlynedd ers pan fu yno o'r blaen pryd yr enillodd Dewi Emrys ei bedwaredd cadair genedlaethol (a'r olaf); a phan

enillodd Euros Bowen ei goron gyntaf.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr 1948 yr enillodd Thomas Richards, Llanfrothen ar yr englyn adnabyddus i'r 'Ci Defaid' allan o 218 o ymgeiswyr — un o englynion gorau'r iaith:

Y CI DEFAID

Rhwydd gamwr hatodd ei gwmell — i'r mynydd
A'r manau anghysbell;
Hel a didol diadell
Yw camp hwn yn y cwm pell.

Rydwi i'n cael trafferth bob blwyddyn i ddod o hyd i fy nghar ar faes y 'Steddfod. Mi ddigwyddodd eleni eto yn Y Bala. Bûm am awr yn chwilio amdano ac, wrth gwrs, roedd hi'n tywallt y glaw y noson honno.

Châi mo'r broblem honno y flwyddyn nesa, os byw ac iach, gan fy mod i eisoes wedi trefnu i fynd efo bws o sgwâr Llanrug i'r 'Steddfod. Cychwyn ddydd Sul ac aros yn un o westai moethus Caerdydd — gwely, brecwast a chinio gyda'r nos os dymunir. Cael eich cludo i'r maes bob dydd (taith tua ugain munud) a dod adre yn syth ar ôl y cadeirio nos Wener. Siawns na ddoi o hyd i fws Arvonina yn weddol rhwydd ar faes y Brifwyl!

DRAENOG



Ond does yna bobol hirben a theg yn byw ym mro'r Eco? Pobol go gall sydd am i bawb gael chware teg a ddim am i neb gael cam. Mi glywais dros yr haf am ddau bwyllgor yn trafod cael rasmus chwiaid er mwyn codi arian. Ond roedd yna un yn amau doethineb y fath syniad ym mhwyllgor Carnifal Nant Peris ac un arall yn rhannu ei hofnau yng Nghwmni Drama Llanberis. Poeni oedd y ddau na fyddai'r fath ras yn gwbl deg i bawb a fyddai'n prynu chwadan. 'Be tasa rhai ohonyn nhw'n hedfan i fwrdd?' meddai Llinos yn y Nant. 'Be tasa un ohonyn nhw'n nofio i fyny'r afon?' meddai'r dyn o Ddeiniolen yn Llanberis.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

Profedigaeth. Ddydd Llun, 11 Awst, bu farw Evan Davies, Tan y Graig, Ceunant, ac anfonwn ein cydymdeimlad i'r teulu, Mair ei wraig, Eleri ei ferch a'i wyrion annwyl Ffion ac Iwan. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch yn eich profedigaeth.

Llongyfarchiadau — Arwel Llywelyn Thomas, Arwelfa, Ceunant ar ennill gradd anrhydedd mewn Cadwraeth Adeiladau ym Mhrifysgol Manceinion;

— Ceri Meredydd Williams, Tyddyn Ni ar ei llwyddiant mewn arholiad chwarae piano a theori, gradd 1. Da iawn;

— i bawb fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU a Lefel-A;

— dymuniadau da i Sian, Rhos y Grug ar ei chwrs arlunio y bydd yn ei ddilyn ym Mangor ym mis Medi; dymuniadau da hefyd i Julie, ei mam, yn ei swydd newydd.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

Dymuniadau gorau i Neil a Marian ar eu priodas yn ddiweddar. Maent wedi ymgartrefu yn 2 Rhes Minffrwd. Pob hapusrwydd iddynt. **Croeso** i Mr Aled Owen sydd wedi dod i fyw i Dwyfor.

Da deall fod Miss Enid Roberts, Minafon a Mrs Ceinwen Roberts, Ael y Bryn yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i ohebydd Tan-y-coed, Annwen Parry, Ael y Bryn ar ei llwyddiant yn y coleg. Enillodd radd B.Add gydag anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor. Pob llwyddiant iddi ar ei gyrfa yn athrawes yn Ysgol Wepre, Cei Connah.

Llongyfarchiadau i Kelly Roberts, Awelfryn ar ei llwyddiant yn yr arholiad TGAU. Pob lwc yn y chweched dosbarth.

Llongyfarchiadau i Sara Roberts, Min y Parc ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru mewn Karate yn Florida.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

'Un funud fach . . .'

Roedd un funud fach yn ddigon: yn fwy na digon. Deffrôdd pawb ohonom fore Sul diwethaf a chlywed y newyddion trist am y ddamwain fawr a ddigwyddodd ym Mharis ganol nos. Un funud fach erchyll yn effeithio ar fywydau miloedd o bobl weddill y dydd ac am ddyddiau a blynnyddoedd i ddod.

Roedd un funud fach yn ddigon i roi taw ar bob rhaglen radio a theledu nad oedd yn trafod y digwyddiad. Yn ddigon i sicrhau na fyddai unrhyw newyddion arall yn cael sylw y diwrnod hwnnw. Yn ddigon i rwystro pob trafod a dadlau gwleidyddol. Yn ddigon i atal chwaraeon o bob math. Yn ddigon i dynnu'r tyrfaoedd at giatiau'r palasau brenhinol. Yn ddigon i beri poen a gofid i filoedd a fu mewn cysylltiad â'r Dywysoges trwy ei gweithgareddau elusennol ac i'r miloedd mwy na welsant erioed mohoni ond trwy'r teledu a'r wasg.


Roedd un funud fach yn ddigon i chwalu bywydau'r ddau fab a gollodd eu mam. Yn ddigon hefyd i chwalu bywydau teuluoedd y ddau arall a fu farw yn y ddamwain. Cydymdeimlwn yn fawr â phawb a effeithiwyd yn uniongyrchol gan y ddamwain. Cofiw'n hefyd am y gŵr o Bowys a dynnwyd yn fyw o'r car ac sy'n ddifrifol wael yr wythnos hon.

Daeth rhagor o wybodaeth am y digwyddiad i'r amlwg bob dydd ers y Sul. Bydd yr ymchwiliadau angenrheidiol yn para am wythnosau a bydd y trafod yn para'n fwy. Bydd enw Diana yn cael ei goffáu mewn pob math o ffyrdd am flynyddoedd i ddod. A phwy a ŵyr beth fydd effaith yr un funud fach honno ar fywyd a brenhiniaeth a chyfansoddiad y gwledydd yr ydym yn byw ynddynt.

Ond yn fwy na dim, un funud fach yn ddigon i ddiffodd bywyd un o bobl enwocaf a harddaf ein dydd. Mae'n anodd credu bod y Dywysoges y bu cymaint o sôn amdani ers blynnyddoedd wedi marw. Rydym wedi cael ein hatgoffa o ba mor frau yw bywyd pob un ohonom. Ond diolch byth bod gan Dduw yn y Beibl rywbeth i'w ddweud wrth unrhyw un sy'n poeni am bethau felly.

JOHN PRITCHARD

Lleisiau'r Fro yn Swyno Dramor



Peidied neb sy'n byw o fewn cyrraedd sgwâr Llanrug a dychryn pan glywant sŵn bws a lleisiau'n llawn cyffro am bump o'r gloch fore Sadwrn, 27 Medi. Dyma'r amser a man cychwyn i rai o aelodau Côr Meibion Dyffryn Peris ar eu taith i Wlad Belg, Luxembourg a'r Almaen.

Bydd y côr yn cynnal tri chyngerdd swyddogol — un ymhob gwlad — ond nid oes sicrwydd faint o gyngherddau annswyddogol a gynhelir! Trefnir y daith gan Teithiau'r Grug, cwmni Gwilym Rees Parry, ac ef a'i gyd-yrwr fydd yn gyfrifol am dywys y côr o fan i fan ac i sicrhau y byddant yn cyrraedd eu cyngherddau mewn da bryd.

Bydd y côr yn croesi i'r Cyfandir ar ôl gadael Folkestone yn y Le Shuttle bawn Sadwrn ac fe fydd hwn yn brofiad newydd a chyffrous i'r mwyafrif o'r teithwyr. Wedi cyrraedd Calais bydd y bws yn teithio i'r gogledd drwy Dunkerque i Wlad Belg ac i ddinas hardd Bruxelles ac yno bydd y côr yn aros am dair noson. Cyn cynnal eu cyngerdd cyntaf nos Lun fe drefnir

i'r aelodau ymweld â Brugges. Ceir cyfle i deithio i Diksmuide i weld y 'Death Trenches' a thŵr Yser cyn mynd ymlaen i ymweld â mynwent enwog Artillery Wood lle y claddwyd 'Bardd y Gadair Ddu' — Hedd Wyn. Bydd hwn yn brofiad arbennig o deimladwy gan y bydd amser gwerthfawr iawn yn cael ei neilltuo uwch y bedd i gynnal gwasanaeth byr a syml ac i ganu englynion coffa R. Williams Parry i'r bardd. Oddi yno bydd y fintai yn teithio i Langemak i weld y gofeb sy'n dynodi'r fan lle cafodd Hedd Wyn ei ladd. Ceir cyfle wedyn i ymweld â thref Ypres, Amugeddfa Salient a'r Menheim Gate. Gobeithir trefnu taith fer o amgylch Bruxelles cyn y cyngerdd agoriadol.

Fore Mawrth bydd y côr yn teithio i Trier yn yr Almaen ac ar y daith caiff yr aelodau gyfle i aros yn Waterloo, man y gyflafan enwog rhwng milwyr Napoleon a Wellington yn 1815. Ar ôl dwyn i gof y gorffennol mae'nig a milwriaethus yna ymlaen i ddrachtio hedd yn nhawelwch a harddwch yr Ardennes a thref Spa, sy'n adnabyddus drwy'r byd fel man gwella amrywiol glefydau. Bydd y côr yn aros am ddwy noson yng ngwesty Albachmühle, Wasserliesh bei Trier yn yr Almaen. Nos Fawrth cynhelir cyngerdd yn Amgueddfa Des Ardoisieres Haut-Martelange.

Dydd Mercher caiff y côr gyfle i ymweld â dinas hynafol Trier a adwaenid ar un adeg fel prifddinas yr Ymerodraeth Rufeinig. Yn y ddinas hon y ganed Karl Marks. Trefnir taith yn ystod y pŵn i Ddyffryn Mossel sy'n enwog am ei gwin a chan fod mis Medi yn 'gyfnod blasu gwin' i drigolion yr ardal, a bod cyngerdd wedi'i drefnu i'r côr yn

ninas Luxembourg yn yr hwyr, mae trefniadau wedi'u gwneud i'r côr gymryd rhan yn nathliadau'r blasu ar ôl y cyngerdd! Fore Iau, am 8 o'r gloch y bore, gobeithir cael pawb ar y bws i gychwyn ar y daith am adref. Byddant yn sicr yn griw blinedig ond, gobeithio, yn eneidiau llawer cyfoethocach eu profiadau.

Dymuna Côr Meibion Dyffryn Peris ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi cefnogi eu gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn; i'r nifer o gwmnïau sydd wedi noddi'r daith (ceir rhestr ohonynt yn y rhifyn nesaf); i'r pwyllgor merched gwych sydd wedi trefnu a chefnogi gweithgareddau. Cwblhawyd y gweithgareddau gyda barbeciw llwyddiannus yng nghartref John Hughes Jones yng Nghrawia yn ystod mis Awst.

Prif symlydd y daith fu Dafydd Bullock. Pan glywodd y cerddor dawnus hwn y côr yn canu rai blynnyddoedd yn ôl bellach fe nododd fod ynddo ragoriaeth a rhinweddau lleisiol unigryw ond iddo gael ei sianelu a'i feithrin. Ei ddymuniad bryd hynny oedd gallu gwahodd y côr i Luxembourg, lle y mae'n ddarlithydd cerdd yn y Brifysgol, llenwi neuadd fawr yno gyda lleisiau meibion o'i ddyffryn genedigol yn atseinio i bob cwr a chornel ohoni, a hynny yn yr iaith Gymraeg. Y mis hwn gobeithir gwireddu breuddwyd Dafydd. Gobaith y côr yw cynrychioli eu bro dramor yn urddasol gan brofi i'r byd a'r betws fod y traddodiad cerddorol yn parhau ac yn ffynnu yn Nyffryn Peris.

Yn dilyn y daith i Luxembourg fe fydd y côr yn ailafael yn yr awennau ym mis Hydref drwy gychwyn ymarfer rhaglen newydd. Rhydd hyn gyfle da i leiswyr lleol ymuno â'r côr. Rhewch wybod i unrhyw aelod os oes gennych ddiddordeb neu gysylltu â'r arweinydd, Arwel Jones, ar (01286) 871274.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWILOTA

SIOP A BECWS BRYNGWYN



Yn ystod yr haf cefais gais am wybodaeth ynglŷn â siop a becws Bryngwyn, Llanrug. Doedd gen i ddim gwybodaeth o gwbl ynglŷn â'r adeilad nac am y bobl a fu'n byw yno, ond chwarae teg i'r ymholydd aeth ati i chwilota ei hun i hanes yr adeilad. Roedd ganddi ddiddordeb personol yn y lle oherwydd ei thaid a'i nain fu'n cadw'r siop a'r becws am gyfnod ac, yn ddiweddarach, ei rhieni. Yno hefyd y ganed Mrs Gwyneth Woodall — a dyma beth o'r hanes a ddaeth i'r amlwg yn dilyn ffrwyth ymchwil ganddi.

Mae'n ymddangos i'r adeilad gael ei godi yn 1903 gan David Charles Pritchard. Yn ôl Mrs Woodall roedd o'n cael ei adnabod fel Dafydd 'Rabar. Rhoddwyd y siop a'r becws ar werth mewn ocsiwn yn y Royal Sportsman Hotel, Caernarfon gan gwmni Messrs Dew a'i Fab. Nid yw'n ymddangos i'r adeilad gael ei werthu oherwydd roedd David Charles Pritchard yn parhau i fyw yno yn 1906 yn ôl y Cofrestr Etholwyr.

Yn 1920 symudodd Mr a Mrs Ellis Jones a'u teulu i siop a becws y Bryngwyn. Ar y pryd roedd Ellis Jones yn rhentu'r siop oddi wrth Mr Crystal o Gaernarfon. Ellis Jones oedd taid Mrs Gwyneth Woodall. Dyma sut mae hi'n disgrifio'r teulu:

'Efo Ellis ac Elizabeth Jones daeth eu merched — Betsi i weithio'n y becws; Nel i weithio yn y siop; Catrin i edrych ar ôl yr anifeiliaid a Jane i wnïo yn y parlwr. Byddai Ellis Jones, neu Ellis Dobie fel y câi ei alw, yn mynd o gwmpas yr ardal efo'i geffyl, Kit, a'i gart i ddanfôn bara.

'Yn 1926 priododd Nel efo John Jones ac ymgartrefu yn 5 Bryngwyn Terrace ond parhaodd i weithio yn y siop. Yn 1928 priododd Jane efo Lewis Roberts o Dan y Coed a oedd yn cadw siop a busnes glo — ac hefyd yn gwerthu petrol. Yn 1930 bu farw Betsi. Yn

yr un flwyddyn hefyd bu farw perchennog y siop — Mr Crystal o Gaernarfon ac yr oedd ei weddw am werthu'r adeilad. Roedd Ellis ac Elizabeth Jones erbyn hyn dros eu 70 oed, a dim awydd prynu; felly, daeth John a Nel yn berchnogion ar y busnes. Ymddeolodd Ellis Jones a symud i fyw i'r Ceunant ac yn ddiweddarach i'r Bwlch.

'Am y deunaw mlynedd canlynol bu fy rhieni yn cadw'r busnes ac yno cefais fy ngeni. Roedd perthynas — Lis Jones — yn byw ac yn gweithio yno hefyd. Mae'n cofio mai 3/6 yr wythnos (a'i chadw) oedd y cyflog.

'Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd y siop a'r becws yn brysus iawn. Roedd ysgol Gatholig wedi symud i Fryn Bras dros y rhyfel ac o'r Bryngwyn y deuai eu nwyddau a'u bara. Roedd 'evacuees' o Lundain yn aros yn y tŷ hefyd.

'Yn 1948 gwerthodd fy rhieni y busnes a symud i Gaernarfon i fyw.'

Mr a Mrs Mothersole oedd y perchnogion newydd ac fe'u dilynwyd gan Mr a Mrs Morris Williams. Yn 1965 prynwyd y busnes gan Mr a Mrs Martin Gardiner — gan gadw'r becws yn unig a caewyd y siop.

Dyna'r wybodaeth a gasglodd Mrs Gwyneth Woodall am ei hen gartref. Mae'n dangos ei bod yn bosibl darganfod hanes tŷ

gyda tipyn o ddycnwch a dyfalbarhad. Tybed faint mwy o ddarlennwyr sy'n gwybod hanes yr adeilad y maent yn byw ynddo?

Ond wrth gwrs nid yw'r stori'n gyflawn. Clywais rai o drigolion ardal y Bryngwyn yn adrodd fel y byddent yn mynd â thoes i'r becws i'w grasu yn y ffwrn — a'i gasglu'n ddiweddarach yn y dydd. Pa bryd tybed y daeth yr arferiad hwnnw i ben?

A beth am ddyddiau cynnar y becws? Pwy oedd David Charles

Pritchard a pham y glewid ef yn Dafydd 'Rabar? Pwy oedd William G. Jones, a pha bryd y daeth Mr Crystal yn berchennog ar y becws? Os oes unrhyw un o'r darlennwyr â gwybodaeth (neu atgofion) am ddyddiau cynnar y becws, yna cysylltwch â mi. Gyda llawer o ddiolch i Mrs Gwyneth Woodall am adroddiad difyr a gwaith ymchwil trylwyr. Beth am i eraill ohonoch fynd ati dros fisoedd y gaeaf i ddarganfod hanes hen siopau neu fusnesau eraill o fewn y fro?

UN O SÊR Y FFILMAU

Beth yw'r cysylltiad rhwng Plasdy Plastirion, Llanrug a ffilmiau arswyd Peter Cushing? Yn 1957 y rhyddhawyd y ffilm *'The Curse of Frankenstein'*. Roedd merch a fagwyd ym Mhlasterion yn actio yn y ffilm. Ei henw oedd Marjorie Hume. Fe'i ganed yn Great Yarmouth ym mis Ionawr 1900, yn ferch i'r Capten Arthur a Mrs Violet Hume. Roedd ei mam yn ferch i'r Cadfridog Syr Hugh Rowlands VC, KCB. Oherwydd i'w rhieni wahanu pan oedd yn eneth ieuanc dychwelodd y fam

a'i dwy o enethod i Blastirion ac yno y magwyd Marjorie a'i chwaer, Miriam. Dilynodd y chwiorydd yrfa theatrig gan ymddangos mewn nifer o ddramâu ar lwyfannau yn Lloegr. Roedd y diwydiant ffilmio yn ei blentyndod ac ymunodd Marjorie Hume â chwmni ffilmio. Ymddangosodd mewn tua hanner cant o ffilmiau i gyd — yn bennaf rhwng y ddau Ryfel Byd. *'The Curse of Frankenstein'* oedd ei ffilm olaf. Bu farw yn Esher, Surrey yn 1976.



Mrs Violet Hume (merch Syr Hugh Rowlands) gyda'i genethod Marjorie, ar y chwith, a Miriam yng ngardd Plastirion, Llanrug.

HEN DAFARNAU

Gan Mrs Owen o'r Rhiwlas y cefais wybodaeth am leoliad y 'Coach and Horses' yn yr un pentref. Gŵr o'r enw Griffith Jones oedd yn cadw'r dafarn ond

symudodd i Ddeiniolen i fyw i gadw tafarn arall. Roedd y Coach and Horses wedi peidio â bod yn dafarn cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ddiweddarach cafod yr adeilad ei droi'n siop o'r enw Siop Maelfa.

Oes rhywun yn gwybod i ba dafarn yn Neiniolen y symudodd Griffith Jones? Beth am fwy o hanes yr hen dafarn yn Rhiwlas?

Gan Mr Arthur Ellis, Waunfawr, daeth gwybodaeth am dafarn y 'Quarryman's Arms' yng Nghroeswaun. Mae'n ymddangos iddi gau tua 1873 yn dilyn pwysau oddi wrth y Mudiad Dirwest yn yr ardal ar y pryd. Roedd y Mudiad Dirwest yn gryf iawn yn y cyfnod hwn ac arweiniodd maes o law at Ddeddf Cau'r Tafarnau ar y Sul yng Nghymru (3 Medi 1882 oedd y Sul cyntaf i'r tafarnau orfod cau). Aelodau o deulu Mr Ellis oedd yn cadw tafarn y Quarryman's Arms cyn 1870 ac mae rhai o wydrau'r hen dafarn yn dal yn ei feddiant.

In the parish of Llanrug — a recently erected Dwelling House and Shop and Public Bakehouse situate in Bryn Gwyn, Llanrug, which

Messrs W. Dew & Son

are instructed by Mr D. C. Pritchard, Bryngwyn
to offer for sale by public auction

At the ROYAL SPORTSMAN HOTEL, CARNARFON

on Saturday, June 6, 1903 at 2.45 o'clock in the afternoon

Bryn Gwyn, Parish of Llanrug.

LOT 2.

527A DWELLING HOUSE, SHOP & PUBLIC BAKEHOUSE, with SPACIOUS YARD, etc and comprising 16½p.

This is a capital place situated in the popular and progressive district of Bryn Gwyn and distant about Half a mile from Pontrhythallt station. It contains the following accommodation, viz:— A Spacious Shop, parlour, kitchen, back kitchen and large Bakehouse with Messrs Morley and Co's Patent Hot Air Oven in capital working order. First Floor - Three Bedrooms. Outside - there is a Privy, Ashpit and Pigsty.

Owing to its important and convenient position, a prosperous and lucrative Grocer and Public Bakehouse is carried on here. This lot possesses sufficient space to build another house fronting the Road leading to Waunfawr.

Hysbyseb am Siop a Becws Bryngwyn a ymddangosodd yn 1903.

ANGEN GWYBODAETH

Pwy oedd 'Alaw o Fôn'? Mae'n ymddangos mai Jane Jones oedd ei henw, ei bod yn briod â John ac yn byw yng Nghwm-y-glo tua 1870. Does gen i ddim mwy o wybodaeth amdani.

Pwy oedd (neu yw) teulu Annie Jones, Llanberis. Fe'i ganed yn 1878 ac ymfudodd i Batagonia yn 1895. Mae wyres iddi — Elva Humphreys — yn byw yn Nhrelew, Chubut, heddiw. Bu Annie Jones farw yn 1960.

Oes unrhyw un o ddisgynyddion Owen John Jones yn dal i fyw yn yr ardal? Roedd yn byw yn Llanrug, ond bu farw ei wraig gyntaf yn 1883 ac ailbriododd ag Elin Jones (gwraig weddw) o'r Lleiniau, Llanrug. Symudodd i fyw i Rhiwlas. Yng Nghyfrifiad 1891 enwir y plant fel Mary, Ellen, Hugh, Michael, Owen, Griffith a Morgan. Yn ôl traddodiad roedd Owen John Jones yn bregethwr cynorthwyol. Mae un o ddisgynyddion plant y briodas gyntaf yn chwilio am ei hanes.

Os oes gennych wybodaeth neu ymholiad am unrhyw agwedd o hanes y fro yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.

CÔR YSGOL BRYNREFAIL 1956



Cafwyd rhestr gyflawn gan Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Llanrug o enwau'r aelodau yma o gôr Ysgol Brynrefail yn 1956 a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf. Mae'r llun yn ailymddangos wedi'i argraffu'n fwy. Mae'n debyg fod rhai o'r genethod wedi methu adnabod eu hunain y tro diwethaf — 'henaint ni ddaw ei hunan', medda nhw! *Rhes gefn (o'r chwith i'r dde)*: 1, Rita Thompson; 2, Olwen Parry; 3, Olive Humphreys; 3, Mary Wyn Roberts; 5, Owena ('Sgoldy'); 6, Eurwen Goldsworthy; 7, Menna Pritchard; 8, Irene Roberts; 9, Rhiannon (Llanberis); 10, Catherine. *Ail res*: 1, Cilla Pritchard; 2, Gwenda Hughes; 3, Margaret Thomas; 4, Dorothy Roberts; 5, Valmai Owen; 6, Barbara Thomas; 7, Y ddiweddar Eleanor Butler; 8, Eryl Griffiths; 9, Jean Perkins; 10, Mary Lloyd Jones. *Drydedd res*: 1, Eurwen Hughes; 2, Y ddiweddar May Roberts; 3, Rhoda Muriel Jones; 4, Eileen Done; 5, Diana (Penisarwaun); 6, Marsli Morris; 7, Gaynor Roberts; 8, Enid Hughes; 9, Heulwen Hughes; 10, Meira (Llanberis); 11, Mona Roberts. *Bedwaredd res*: 1, Eirian James; 2, Margaret Roberts; 3, Eurwen Pugh; 4, Jean Jones; 5, Enfy Roberts; 6, Norrah Parry; 7, —; 8, Morfudd Williams; 9, Buddug (Deiniolen); 10, Ann Parry; 11, Eirwen Williams; 12, Vivien Jones. *Rhes flaen*: 1, Mair Roberts; 2, Sylvia Thomas; 3, Mary Green; 4, Carys Evans; 5, Helen Griffith; 6, Lorna Jean Owen; 7, Gwenda Thomas; 8, Alice Williams; 9, Eryl Hughes; 10, Eryl Roberts; 11, Rose Ann Pritchard.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa

o luniau gwreiddiol

gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta


Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi

mewn stoc — allwch chi

fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Canmol ein Meddygon. Dymuna Mr Cyril Smith, Rhos-lan ddatgan mor lwcus yr ydym yn yr ardal o gael tri meddyg ymroddgar, Dr Williams, Dr Roberts a Dr Jones. Meddai Mr Smith: 'O wrando ar drigolion y pentref ac o brofiad personol gwn y gwnant wrando ar eich cwyn a'ch cyfeirio at arbenigwyr yn yr ysbyty yn syth os ydych yn wirioneddol wael. Mae staff y Feddygfa hefyd bob amser yn glên ac yn barod iawn i helpu. Pebai fy mab wedi bod mor ffodus i fyw yng Ngwynedd, yn hytrach na Birmingham, bu am dair blynedd a hanner yn aros am driniaeth i'w galon ond nid oedd mor lwcus gan iddo farw y diwrnod cyn ei driniaeth. Felly, diolchwn ni am dri meddyg ardderchog.'

Llongyfarchiadau i blant a phobl ifanc yr pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau ysgol a choleg. Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd.

Llongyfarchiadau Eisteddfodol. Ein llongyfarchiadau i Meira Turner, Collfryn ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala. Daeth i'r brig yn y gystadleuaeth llefaru i rai dros 25 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwenda Griffith, Trefeddyg a'i chwaer Alwen ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth deuawd cerdd dant dros 21 oed yn Y Bala.

Priodas. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Anthony Marsten, Blaen y Nant ar ei briodas â Louisa Niclas o'r Groeslon.

Dathlu Pen-blwydd Priodas. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs William Coles, Bro Waun ar ddathlu eu priodas arian yn ddiweddar.

Dathlu Pen-blwydd. Llongyfarchiadau i Mrs M. Owen, Tref Eilian ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 92 oed; ac i Mark Williams, 19 Tref Eilian; Gerallt Jones, Hafod yr Rhug; Kirsty Jones, Cynefin; a Zoe Gordon, Garnedd ar gyrraedd eu deunaw oed.

Genedigaethau. Yn ystod yr haf bendithiwyd deg o deuluoedd y pentref â genedigaeth plentyn bach: Daeth Dick a Gwendoline Rowlands, 5 Bryn Golau yn daid a nain i Jessica, merch fach i'w mab Graham ac Alison, a chwaer fach i Liam.

Ganwyd ail wyres fach i Gwilym a Mair Williams, Fferm Bodhyfryd, Anest Glyn, merch fach i'w merch Delyn a'i phriod Glyn a chwaer fach i Siwan.

Mab bychan, Gerallt, a anwyd i Alison a daeth Elfed a Janice Jones, Llys Menai yn daid a nain i'w ŵyr cyntaf.

Daeth Mr a Mrs Henderson, Bryn Gwynedd yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganed merch fach, Beth, i'w merch Geraldine a Karl.

Ganwyd Ffion Alaw i Gethin a Sharon, Stad Tref Eilian, chwaer fach i Emma ac wyres fach i John a Sulwen Lewis, Bryn Golau; ac i Rol a Gwenlli Williams, Ardwyn, Stad Pant Waun.

Daeth merch fach, Mared Rhys, a hapusrwydd i Dylan a Nia Jones, Eryri Wen, Stad Bodhyfryd, chwaer fach i Elgan Rhys.

Mab bychan, Dafydd, a anwyd i Joanne a Tony, Fron Hyfryd, brawd bach i Alun.

Ganwyd eu plentyn cyntaf, mab bychan, Kai Daniel i Sacha a Neil Allcock, Dolwyn.

Ganwyd mab bychan, Gwynhaf William, i Derek ac Eleri, Stad Tŷ Hen.

Ganwyd mab bychan, Tomos Wyn, i Branwen ac Eifion Williams, Bod Idris.

Croeso mawr i'r rhai bach a phob dymuniad da i'r teuluoedd.

Ymdeoliad. Dymunwn pob hapusrwydd i Mrs Beryl Lloyd Jones, Dol-y-coed, Stad Bodhyfryd ar ei hymddeoliad o'i swydd yn Ysgol Maesincla; ac i Mrs Iona Williams, Llwydiarth, hithau hefyd wedi ymddeol o Ysgol yr Hendre. Mwynhewch eich ymddeoliad.

Cyfarfod â Damwain. Bu'r rhaid i Sion Greasley gael pwythau yn ei ben wedi iddo frifo tra ar ei wyliau yn Sbaen.

Torrodd Dylan Rhys, Eryri Wen, ei fraich wrth chwarae pêl-droed.

Da deall fod Tom Williams, Llwydiarth wedi gwella a chael dechrau gweithio wedi iddo dorri ei ffêr.

Adrefn o'r Ysbyty. Yn ystod yr haf bu Kirsty Jones, Cynefin; Mr H. O. Jones, Glaslyn; Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau; Mr Glyn Owen, Glan Gors; Mrs Parry, Stad Bro Waun; a Mr Iestyn Jones, Tŷ Ni, yn yr ysbyty



Noson croesawu'r wraig o Wahoonga ar achlysur dathlu canmlwyddiant Marconi.

am gyfnod. Mawr obeithiwn eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Anfonwn ein cofion cynhesaf i Mr Thomas Williams, 8 Pant Waun sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion hefyd i drigolion y pentref sydd yn gaeth i'w cartrefi ac yn methu mynd o gwmpas fel yr arferent.

Cydymdeimlo. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Eleri Williams, Trigfa, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Evie Davies; ac i Mrs Sarah Lewis, Stad Tref Eilian yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Glenys Pierce, Bryngwyn yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Cydymdeimlwn â Mr Clough, Ynysoedd yn ei brofedigaeth o golli ei frawd.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Glenys Lloyd, Bryn Awelon ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Gwenan Haf o Tir na n-Og, Henllan, Dinbych ddiolch o galon i deulu a phobl pentref Waunfawr am y cardiau a'r arian a dderbyniodd am ennill ei gradd yn Llundain.

Y Ganolfan. Mae cadeirydd Y Ganolfan, Eurig Wyn, wedi ysgrifennu at bedwar aelod o bwyllgor y Ganolfan i ddiolch yn swyddogol iddyntg am eu cyfraniad aruthrol i bwyllgor Canolfan Waunfawr ar hyd y blynyddoedd. Bellach penderfynodd Grace Dawson, Alice Johnstone, Helena Jones a Dewi Jones ymddeol o'r pwyllgor ar ôl cyfnod hir o wasanaeth yn ymestyn hyd at ugain mlynedd. Dywedodd Eurig Wyn fod



Y cerflun a gyflwynwyd i Gynghorau Cymuned Waunfawr a Llanberis gan yr ymwelydd o Wahoonga.

eu cyfraniad wedi bod yn 'amhrisiadwy ac yn un y bydd y pwyllgor a'r pentref yn gweld ei eisiau'n fawr.'

Gobeithir agor cyfleusterau'r estyniad newydd yn yr hydref.

Antur Waunfawr. Llongyfarchiadau i Menna ac Idris ar enedigaeth Idris Mabon.

Nos Wener, Medi 5ed, am 8 o'r gloch, bydd noson wahanol iawn yn cael ei chynnal ym Mharc Natur yr Antur. Bydd cyfle i astudio ystlumod, gwyfynnod a'r sêr. Dowch a dillad cynnes a bydd lluniaueth ysgafn ar gael i gynhesu. Croeso cynnes i bawb.

Bydd Ras Antur Waunfawr eleni yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, Medi 27ain am 2 o'r gloch o Ganolfan Waunfawr. Y gŵr gwadd eleni fydd Eifion Jones (Jonsi) BBC Radio Cymru. Bydd caffi a stondinau. Gyda'r nos cynhelir noson yn y Snowdonia Parc yng nghwmni'r Strymdingars.

Cynhaliwyd Barbeciw blynyddol yr Antur ar Orffennaf 26ain yng nghwmni tri o actorion o'r gyfres deledu 'Rownd a Rownd', ac Angharad Tomos fu'n darllen storiâu i blant. Roedd yn noson lwyddiannus, er gwaetha'r tywydd, a gwnaed elw o £67.70 tuag at Ymgyrch Apêl Canolfan Waunfawr.

Roedd gan Antur Waunfawr stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala a bu Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd, sy'n adran o'r Antur, yn casglu caniau diod gwag ar y maes er mwyn eu hailgylchu. Cafodd bron pawb o'r Antur fynd i lawr i weithio yn y Steddod am ddeuddydd a hanner yr un, a chael aros ger Cerrigydrudion. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain.

DRAENOG

Contractors
Cneifio

Ffontiwrch Bryn neu ALWYN...
Watrfaen 650218 neu 650218.



Cneifio gwahanol wedi eu dysgu
iawn 'hair dresser' lleol.
Prisiau rhestrysol gan y ddau grefittwr.



WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Ysgol Waunfawr. Daeth blwyddyn brysur arall i ben a chyflwynwyd tarianau blynyddol eto eleni a'r enillwyr oedd — tarian cerdd: Ieuan Parry; tarian cywaith: Sara Roberts; cwpan ymdrech: Dianne Jones; medalau mabolgampau: merched, Sara Roberts, bechgyn, Guto Llywelyn a Ieuan Parry.

Yn ystod wythnos ola'r tymor cyflwynwyd copi o sgript a thâp o daith John Evans i'r America i Mr Gwynn Davies, Cadeirydd Antur Waunfawr. Paratowyd y sgript gan ddisgyblion blwyddyn 5 a 6. Gobeithio bydd y copiâu yn cael eu cadw yn yr amgueddfa fydd yn cael ei sefydlu yn Nhy Capel Bethel gan Antur Waunfawr.

Llongyfarchiadau i Mrs Sian Williams a'i gŵr Ian ar enedigaeth Heledd Gwawr.


Enillwyr Clwb 300 mis Mehefin: £40: I. Bracegirdle, 2 Bro Waun; £25: F. & R. Troughton, Pant Gwyn; £10: Gareth Jones, Glyn Ceris. **Mis Gorffennaf:** £40: Mrs Perl Williams, Parc; £25: Mr Meirion Jones, Crud



Aelodau tîm pêl-droed y pentref, yn cynnwys y tîm dan 11 oed a enillodd Ail Adran Cynghair Gwynedd.



John Hywel yn cyflwyno tarian cerdd i Ieuan Parry. Yn y llun hefyd mae Eryl Thomas, prifathrawes, a Mrs Ann Marston, noddwr y darian yn flynyddol.



Diane Jones, enillydd y Cwpan Ymdrech.



Cyflwyno copi o sgript a thâp o daith John Evans i Mr Gwynn Davies.



Tîm pêl-droed dynion (medda nhw!) fu'n cymryd rhan yn niwrnod hwyl Clwb Pêl-droed Waunfawr.



Enillwyr medalau'r mabolgampau, Guto Llywelyn a Ieuan Parry, cydradd gyntaf; a Sarah Roberts, cyntaf.

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmiau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

IEUAN WILLIAMS


Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am

BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Codi Arian. Cynhaliwyd dau barbeciw yn Llain Meddygon ym mis Gorffennaf, y naill ar gyfer codi arian i'r elusen gofal cancr MAID, a'r llall ar gyfer cronfa Côr Meibion Caernarfon. Diolch i Kit a Vernon Jones am y trefniadau a'u lletygarwch.

Y Capel. Ar 13 Gorffennaf derbynwyd pedwar aelod newydd: Aaron Evans, Llecyn Clyd; Arwel Jones, Chwiban y Gwynt; Manon Hughes, Lleifior a Ceri Roberts, 10 Erw Wen. Codwyd £170 i gronfa'r Capel trwy gynnal bore coffi ac os oes eraill yn dymuno cyflwyno rhoddion i'r trysorydd, Mr O. Williams, 19 Tai Glangwna, byddem yn ddiolchgar iawn. Mae'r gwaith atgyweirio'r Tŷ Capel gan y perchennog newydd wedi dechrau. Disgwyliwn gael gwybod pwy yw perchennog y llain adeiladu.

Disgwyliw y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Medi:

7: Parchg W. R. Williams (2)
14: Parchg W. R. Williams (10)
21: Parchg Iorwerth Jones Owen (2)
28: Parchg S. O. Hughes (2)
Croeso: Croesawn Tim a Jane Lloyd i Gaeathro i'w cartref newydd yn Bodwel (Tŷ Capel gynt). Mae Tim yn un o feibion Llanberis ac yn gweithio gyda Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru yn Y Rhyl.

Tawelu Trafnidiaeth. Bu ymdrechion di-ri gan gynghorwyr sir, dosbarth a chymuned am nifer o flynyddoedd i arafu'r drafndiaeth drwy'r pentref. Yn ystod mis Gorffennaf penderfynodd Cyngor Gwynedd roi wyneb newydd ar y gyffordd rhwng y briffordd â ffordd Pontrug ger Bryngwna. Bu gwahaniaeth o ddwy fodfedd yn lefelau'r tarmac am dridiau ac fe welwyd arafu mawr yng nghyflymdra'r drafndiaeth drwy'r pentref gyda cherbydau'n cadw at y cyflymdra uchaf o 30 mya. Ond ar ôl gorffen y gwaith nid oes arafu bellach ac erbyn hyn torri'r gyfraith a gyrru dros 30 mya yw'r arferiad. O leiaf mae gennym dystiolaeth am effeithiolrwydd gosod mesurau tawelu trafndiaeth yng nghanol y pentref!

Eisteddfod Meirion. Llongyfarchiadau i Ceri Ann Roberts ar ennill yr unawd Cerdd Dant i rai 16-21 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Huw Ceiriog, 4 Erw Wen a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth 'Rhoi Wil yn ei wely'. Deallwn fod carafanio'n well na Bryngwna i rywun erbyn hyn!

Nain a Taid. Llongyfarchiadau i Delyth, merch Mair a John Glyn, Llety'r Wennol (Bodawel gynt) ar enedigaeth plentyn bach.

Llwyddiant Addysgol. Llongyfarchiadau i Aaron Cadwaladr Evans, Llecyn Clyd ar basio arholiadau Lefel-

A mewn tri phwnc, Economeg (A), Hanes (A) a Daearyddiaeth (B). Deallwn y bydd Aaron yn astudio Hanes ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Gwibdaith y Pentref. 'Slawer dydd uchafbwynt y flwyddyn yng Nghaeathro fydd Carnifal y pentref a gynhelid ar Gŵyl Banc Awst. Eleni, er mwyn ceisio tynnu pobl at eu gilydd, trefnwyd gwibdaith i Southport ar Sadwrn Gŵyl Awst gan bwyllgor y cae chwarae. Ymhen pythefnos roedd pob sedd ar y bws wedi'i gwerthu. Roedd pobl o bob oed ac o bob rhan o'r pentref ar y wibdaith. Yn anffodus nid oedd yn ddiwrnod heulog yn Southport ond roedd yna ddigon o siopau, ffair, blodau, caffis a thafarndai i gadw pawb yn hapus drwy'r dydd. Diolch i'r trefnwyr a'r cefnogwyr am ddiwrnod llwyddiannus.

Tynfa Fisol. Enillwyr mis Awst oedd — £40: Guto a Nansi Jones, Tremallt (27); £25: Brian a Dilys Griffiths, Delfryn (31); £15: Ellen Burke, Arosfa (24); £5: Wil a Cath Hughes, Gwefn Gwern (48). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Castell Caernarfon. Yn ddiweddar bu llawer o sôn am y rhai a dorrodd i mewn i Gastell Caernarfon. Faint ohonoch sy'n cofio digwyddiad, dros 30 mlynedd yn ôl, pryd y torrodd tri bachgen o Fryn Gof *allan* o'r Castell. Y tri oedd Terry Griffith, Richard Roberts ac Evan Wyn Evans, i gyd yn 12 neu 13 oed ar y pryd. Roeddent wedi bod yn archwilio'r castell ac wrth i'r ceidwaid gloi'r giât roedd y tri yn dal y tu mewn. Wedi treulio awr yn ceisio tynnu sylw rhywun at eu problem fe ddarganfu 'Benno' far haearn ac fe dorrodd y clo a dianc o'r castell! Da iawn hogia.

Hyfforddiant Rygbi

Bellach mae sesiynau ymarfer a hyfforddiant rygbi, ar gyfer pob oedran, wedi dechrau yng Nghlwb Rygbi Caernarfon a gynhelir ar Y Morfa (ger Ysbyty Eryri), Caernarfon. Bydd y sesiynau — hogia a genod — fel a ganlyn:

7-11 oed: nos Wener, 6 p.m.
12-16 oed: nos Fawrth, 6 p.m.
16-19: nos Fercher, 6 p.m.
Nos Lun a nos Fercher am 7 p.m. cynhelir sesiynau ymarfer y timau hŷn (dros 19).

Nid oes sesiynau ymarfer ar gyfer hogia'r henoed (dros 35) ond fe drefnir gêmiau ar eu cyfer.

Agorir y pafiliwn a'r ystafelloedd newid chwarter awr cyn amser dechrau'r hyfforddiant.

Bydd croeso cynnes i bawb o bob oedran a phrofiad i'r sesiynau hyn.

SEREN IFANC O LANRUG

Mae merch fach o Lanrug wedi dechrau dod i deimlo'n gartrefol iawn o flaen camerâu teledu. Bydd Emma Catherine i'w gweld yn fuan ar S4C, gan fod ganddi ran amlwg mewn ffilm o'r enw 'Y Ferch Dawel' a gafodd ei ffilmio yn ardal Clynnog Fawr y llynedd.

Roedd cyfarwyddwr y ffilm honno, Gareth Lloyd Williams o Ffilmiau Llifton, wedi rhyfeddu mor rhwydd roedd Emma wedi cymryd at y gwaith. 'Roedd hi'n cymryd diddordeb byw ym mhob agwedd o'r peth, ac wedi deall pethau fel 'continuity' mewn dim o dro,' meddai. 'Roedd hi'n dweud wrtha i ei bod hi'n gwyllo lot o deledu ac yn meddwl trwy'r amser beth oedd yn mynd ymlaen ym mhennau actorion.'

Yn 'Y Ferch Dawel', addasiad o nofel gan Marion Eames am gymhlethdodau teuluol, mae Emma'n portreadu merch fach o'r enw Debora, sy'n hanner chwaer i Heledd, y prif gymeriad. Naomi Martell o Landeilo sy'n actio Heledd ac ymhlith y prif



actorion eraill mae Betsan Llwyd, Dyfan Roberts a Christine Pritchard. Gallwch weld y rhaglen nos Iau, 11 Medi am 9.20 p.m.

Bydd Emma i'w gweld ar y bocs eto cyn hir gan fod ganddi ran fechan yn 'Y Mynydd Grug', addasiad Llun y Felin o *Te yn y Grug* gan Kate Roberts, a ddangosir dros y Nadolig. Mae ganddi hefyd ran mewn cynhyrchiad arall sydd ar y gweill gan Llun y Felin.

Gwraig y Tŷ yn yr Ardd

(Derbyniwyd y cyfraniad hwn ym mis Gorffennaf ond gan nad oedd rhifyn Awst, cyhoeddwn ef yn y rhifyn hwn er ei fod yn sôn am fis Awst — Gol.)

Mis Awst yw'r mis hyfrydaf yn yr ardd. Mae'r rhosynau yn eu gogoniant. Ac yn y clwt bach o dir sydd gen i mae yna flodau parhaol ac un ohonynt wedi tyfu i chwe troedfedd. Rhywun arall a'i plannodd. Thyfais i erioed mo'r blodyn arbennig yma fy hunan, ond wedi holi cefais wybod mai *canpanula* ydi o. Ond, meddwn i, blodau bach glas yn harddu ymyl y bordor ydi'r math yna. Rhoddwyd eu henw iddynt am eu bod fel clychau bach. Cofiaf fynd i Glynllifon efo Sefydliad y Merched i wersi garddio. E. J. Griffith oedd yr athro ac rwy'n dal i gofio'i eglurhad ar yr enw *canpanula*. Ystyr *canpanology* ydi canu clychau a cheir *canpanologist* mewn eglwysi mae'n debyg. Mae'n help i mi gofio enw'r blodyn arbenning yma.

Mae gennyf flodyn melyn sy'n newydd i mi yn y border bach. Dywed y sawl a'i rhoddodd i mi mai *Lady's Mantle* yw ei enw. Mae'n bwysig cael blodau sy'n gorchuddio'r ardd, *ground covers*

DRAENOG



AR GOLL! Cath fach ddu a gwyn. Gwelwyd ddiwethaf yn Stryd y Ffynnon, Llanberis yn fuan cyn diwrnod y Carnifal. Dim enw, dim coler, dim cloch, dim marciau amlwg. Ond, os gwelwch chi gath fach *bren* yn cerdded o gwmpas y lle gallwch fentro mai hwnnw ydi o. Ffoniwch 871423. Ond mae'n beryg bod yr hen gath wedi crwydro'n go bell, gan fod Pws wedi anfon cardiau post at ei feistr o bob rhan o'r wlad a thu hwnt erbyn hyn.

sydd yn y llyfrau garddio. Maent yn help i rywstro rhywfaint ar y chwyn, sy'n beth gwerthfawr iawn.

Mae digonedd o sioeau ardderchog yn ystod yr haf. Arferwn fynd i Sioe Gymraeg y Borth a dyna hyfryd yw cael enwau Cymraeg ar yr holl flodau. Mae yna Gymry da yn Sir Fôn sy'n mynd i'r drafferth i gadw'r iaith yn fyw yn yr ardd. Fûm i erioed yn cystadlu mewn sioeau ond mae'n werth gweld ffrwyth llafur pobl eraill, a dysgu sut i wneud yn well ein hunain.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
Ffôn: 870292

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol
Ffôn: 871174

Ymfudo. Roedd yn ddrwg gennym ddarllen yn y rhifyn diwethaf o'r Eco fod Glyn Tomos, gohebydd Dinorwig, yn symud o'r ardal ac o'r herwydd yn rhoi i fyny'r gwaith a fu'n ei gyflawni yn cofnodi'r newyddion am gyfnod mor hir. Rhoddodd Glyn wasanaeth clodwiw i'w aelod dros y blynnyddoedd. Bu'n aelod gwerthfawr o Eglwys St Mair cyn iddi gael ei chau. Ef a sefydlodd Rhodri Haf ac Eisteddfod y pentref a hoddai gymait o bleser i bawb. Diolch iddo am ei ymroddiad a dymunwn iddo bob hapusrwydd yn ei gartref newydd.

Croeso. Tra'n ffarwelio â Glyn, braf yw cael croesawu Miss Carol Williams, Pant Sardis i fyw yn yr ardal. Deallwn fod Carol wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar ond braf yw cael dweud ei bod yn gwella a gobeithio y caiff adferiad llwyr a buan.

Adref o'r Ysbytai. Drwg gennym ddeall fod Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir wedi gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty yn Lerpwl ond ei bod bellach wedi dod gartref.

Da gweld Mrs Betty Peris Roberts wedi dod gartref o Ysbyty Gylan Clwyd ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth. Da hefyd yw gweld Mrs Sally Brennan, Afallon hithau gartref ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y byddant yn gwella'n fuan iawn.

Croeso i'r Babanod. Llongyfarchiadau ar enedigfaeth Nia Eysyllt, merch fach Gareth a Marian Griffith, Bryn Sardis a chwaer i Catrin;

Tomos Derek, mab i Colin a Shirley Humphreys, Gwêl yr Wyddfa a Lliwen Mair, merch i Bethan a Dylan Morris, 9 Maes Eilian, chwaer fach i Elir Wyn.

Cydymdeimlo. Estynnir ein cydymdeimlad llwyr i Mrs Iona Phillips, 12 Maes Eilian a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad.

Priodas Aur. Llongyfarchiadau — er braidd yn ddiweddar — i Alice ac Adathl Griffith, Tan y Bwlch a ddathlodd eu Priodas Aur ar Orffennaf 15fed. Ar ddiwrnod y dathlu roedd y ddau ymysg 4,000 o gyplau eraill a ddathlai hanner canfed pen-blwydd eu priodas mewn garddwest ym Mhalas Buckingham yng nghwmni'r Frenhines a Dug Caeredin. Trefnodd cwmni bysiau Arvonnia westy a'r daith i Lundain ar gyfer y rhai o Wynedd a fu'n ddigon ffodus i gael eu dewis i ymuno yn y dathlu yn Llundain. Cawsant i gyd brynhawn plaserus iawn ac un a hir gofir ganddynt.

Llongyfarchiadau i Sara Wood, Fron Heulog ar ei llwyddiant yn ennill gradd B.A. gydag anrhydedd mewn Cymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Y Grefdeithas. Cynhaliwyd pwyllgor i drefnu rhaglen ar gyfer tymor yr hydref a da yw cael dweud fod y rhaglen bellach wedi'i chwblhau. Mae rhagolygon am dymor llwyddiannus eleni eto. Bydd y manylion yn dilyn yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Diolch. Dymuna Andrew ac Alice

Griffith, Tan y Bwlch ddiolch i'w teulu a llu o ffrindiau am eu dymuniadau da iddynt ar achlysur eu Priodas Aur ar Orffennaf 15fed. Bu eu hymweliad â Phalas Buckingham ar yr achlysur yn brofiad gwych. Diolch yn fawr i bawb.

Y Ganolfan. Ar 17 Gorffennaf cynhaliwyd pwyllgor y Ganolfan ond, yn anffodus, dim ond saith oedd yn bresennol gan gynnwys y Cynghorydd Len Jones. Cadeiriwyd y cyfarfod gan David Hughes. Poen fwyaf y cyfarfod oedd diogelwch yr adeilad gan fod y Swyddog Tân wedi gwrthod rhoi caniatâd i gael trwydded i chwarae Bingo yn yr adeilad hyd nes yn gyntaf wario rhwng £2,000 a £3,000 i'w haddasu yn briodol. Bu tipyn o drin a thrafod ar sut i godi'r arian er mwyn gwneud y gweliannau, a wrynbyllwyd y byddai modd cael yr arian drwy elusennau. Eiddo y Swyddfa Addysg yw'r Ganolfan felly cynigiodd Miss Marian Jones am i'r pwyllgor gysylltu efo'r Swyddfa yng Nghaernarfon i weld pa hawliau sydd ganddynt fel pwyllgor. Cefnogwyd hi gan y Cynghorydd Len Jones felly fe basiwyd i anfon llythyr at Mr Peter Leat Williams, a Phenyddau leuon i'r Chymuned; ac hefyd llythyr i'r Swyddfa Ddan yn gofyn am archwiliad pellach o'r adeilad. Yn dilyn hyn daeth Mr Lunt Williams i gyfarfod â Mrs Hannah Mary Roberts a Mrs Karen Jones yn y Ganolfan ond yn anffodus nid oedd neb o'r Swyddfa Ddan yn fodlon dod i'w cyfarfod.

Yn dilyn hyn cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan, ar 31 Gorffennaf, pryd y daeth dros ddeugain o'r pentrefwyr ynghyd ond, yn anffodus, roedd y Cymry yn y lleiafrif. Ble tybed oedd y Cymry? Cadeiriwyd y cyfarfod gan Miss Marian Jones ac yn bresennol roedd Mr Lunt Williams. Cawsom adroddiad drylwyr iawn ganddo a dywedodd nad oedd yn rhaid poeni am ddiogelwch yr adeilad gan ei fod mewn cyflwr lled dda. Bu'n hollol onest â'r pwyllgor a dywedodd bod gennym un o ddau ddewis, sef cario ymlaen fel yr ydym ond am faint ni allai ddweud oherwydd y toriadau mae'r Swyddfa Addysg yn ei wynebu. Yr ail ddewis yw cymryd prydles am bum mlynedd ar hugain ac fe fyddai hynny yn ein galluogi i gael arian o wahanol elusennau. Addawodd hefyd anfon swyddog i archwilio'r adeilad a'r system darganfod tân; hefyd dywedodd y byddai'n cael y drysau i agor allan yn hytrach nag tuag at i mewn yn unol â'r gofynion. Addawodd hefyd y byddai'n rhoi cymorth inni fel y bo'r angen.

Diolchwyd iddo cyn iddo ymadael â'r cyfarfod. Bu cyn drin a thrafod ar y mater ond cyn inni wneud dim pasiwyd i'r ysgrifenyddes ofyn i'r Swyddfa am fanfynion o'r holl daliadau'r Ganolfan o 1 Ebrill 1996 hyd 31 Mawrth 1997.

Pasiwyd i gynnal y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan nos lau, 11 Medi, am 7.30 p.m. Taer erfynnir am bresennoldeb Cymry ifanc yr ardal.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Diolch. Gwerthfawroga Hugh a Nerys Roberts, Caernarfon ddymuniadau ffrindiau ac aelodau'r capel ym Mrynrefail am wellhad buan i'w mab, Rhys — ŵyr i Gwilym a Jennie Hughes, Bryn Parc — yn dilyn damwain anffodus a gafodd yn ddiweddar. Rydym yn falch o ddeall fod Rhys yn gwella'n raddol.

Sul Arbennig. O ystyried iddi fod y mis Mehefin gwlypaf ei dywydd o fewn cof, roedd yn anhygoel fod y Sul, Mehefin 29ain wedi troi allan yn ddiwrnod mor hafaidd. Hwn oedd Sul blynyddol cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau Cangen Deiniolen a'r Cylch. Roedd croeso twymgalon yn ein haros wrth i ni gyrraedd trothwy capel graenus Cefnywaun ar gyfer oedfa'r prynhawn. Cafwyd gwasanaeth teyllwng dan ofal plant Ysgolion Sul yr ardal — Ysgol Sul Undebol Deiniolen; Eglwys Llandinorwig; Eglwys Santes Helen; Bosra; Dinorwig; Sardis a chynrychiolwyd Ysgol Sul Brynrefail gan Amy Lambert, Elen Williams, Dylan Davies, Caryl ac Awen Jones a Rhian ac Anna George. Rhoddasant gyflwyniad llafar i ddathlu'r Sul olaf o Fehefin, sef dydd gwyl Sant Pedr. Ar gyfer oedfa'r gwyl rhaid oedd cyrchu i Ddinorwig, i Sardis, capel y Bedyddwyr — capel uchaf ei leoliad yng Nghymru — ar gyfer y Gymanfa Ganu. Roedd cynhesrwydd arbennig yn y croeso, datganiadau Côr Meibion Dyffryn Nantlle, y moliant cynulleidfaol a oedd yng ngofal arweinydd a chyfeilydd y Côr a chyfraniad Ysgol Sul Sardis yn fythgofiadwy.

Diolch am drefniadau manwl y dydd ac am ymroddiad pob un gymrodd ran yn y cyfarfodydd.

Ar y Sadwrn blaenorol roedd y niwl yn gorchuddio'r llethrau ond ymhob ystyr drannoeth roedd y niwl wedi codi a'r Sul a'i brofiadau yn destun trafod am ddyddiau lawer.

Cymdeithas y Chwiorydd. Cyfarfu'r aelodau yn y Festri nos lau, Gorffennaf 10fed dan lywyddiaeth Mrs Verna Jones, Meillionen. Roedd y defosiwn gan ofal Mrs Mair Davies. Y siaradwr gwadd oedd Mr Norman Williams, Godre'r Coed a threuliwyd amser difyr yn ei gwmni yn sgwrsio dan y teitl 'Fy Niddordebau'. Arddangosodd nifer o enghreifftiau

o dirluniau a darluniau o deigrod mewn olew. Cyflwynodd ddetholiad o farddoniaeth ysgafn Gymraeg o'i waith a rhan allan o *O Law i Law* (T. Rowland Hughes). Diolchwyd iddo am ei gwrs gan Mrs Jennie Hughes. Roedd y lluniaeth yng ngofal Mrs Gwyneth Evans a Mrs Dilys Morris. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Medi 11eg pryd y disgwylir Mrs Ceinwen Williams, Caernarfon, i adrodd am rai o'i phrofiadau yn Rwmania.

Diolch. Dymuna Lowri P. Roberts Williams ddiolch yn ddiffuant i rieni a phlant, cyn-ddisgyblion a chydweithwyr yn Ysgol Bethel dros y blynyddoedd, teulu a ffrindiau am y rhoddion hael, yr anrhegion a chardiau lu a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Cartref Newydd. Anfon ein dymuniadau gorau i Mrs M. L. Ellis a Mrs Phyllis Jones, Gors a symudodd i fyw ddechrau Awst i Hafod Lon, Rhiwlas. Wedi treulio bron i hanner canrif ym Mrynrefail bydd chwith mawr ar eu hôl ond dymunwn lawer blwyddyn o hapusrwydd ac iechyd iddynt yn eu cartref newydd.

Brysiwch Wella. Dyna ein dymuniad i Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buari a gipiwyd i Ysbyty Gwynedd yn ystod mis Awst. Da deall ei bod gartref erbyn hyn ac yn gwella'n foddhaol. **Eglwys M.C. Brynrefail.** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Medi:

- 7: Mr Evan Jones, Bontnewydd (5.30)
- 14: Mr Islwyn Hughes, Llangoed (5.30)
- 21: Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (10)
- 28: Parchg S. O. Hughes, Bethel (10)

* * * * *

Dymuniadau Da. Dyna ddymuniad pawb ym Mrynrefail a'r cylch i Lowri P. Roberts Williams ar ei hymddeoliad fel dirprwy brif-athrawes Ysgol Gynradd Bethel, wedi bron i ddeng mlynedd ar hugain o wasanaeth yno. Gŵyr pawb am ei gwasanaeth ymroddgar nid yn unig yn yr ysgol ond hefyd yn y byd cerddorol, y capel a'r Ysgol Sul ym Mrynrefail, a phob amser yn barod ei chymwynas. Ymddeoliad hapus iawn Lowri. — Gohebydd Answyddogol.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Diolch. Dymuna Aled, Llwyn Eithin ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am y cardiau, arian, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur derbyn ei radd ym Mhrifysgol Lerpwl, ac hefyd ar gychwyn ei waith ym Manceinion.

Diolch. Dymuna Menna, 5 Tan y Cae, ddiolch yn fawr i bawb ym mhentref Bethel ac ym mro'r Eco am eu cardiau a'r dymuniadau da iddi yn ddiweddar.

Diolch. Dymuna Elizabeth, Blaen Parc, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd ym mis Gorffennaf.

Diolch. Dymuna Kathleen, Dilwyn, Ffion a Lola, Angorfa, 29 Bro Eglwys, Bethel, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl ym Methesda. Rydym yn ei werthfawrogi'n fawr iawn, a'r rhoddion ariannol a ddaeth i law ac fe'i trosglwyddir i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

Merched y Wawr. Bydd y gangen yn ailgychwyn dros dymor y gaeaf nos Fercher, 10 Medi, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch. Noson gymdeithasol fydd yno gyda chyfle i bawb sgwrsio dros baned ac ymaelodi. Mae rhaglen ddifys wedi'i threfnu gyda rhywbeth at ddant pawb. Edrychwn ymlaen at weld yr aelodau ffyddlon — a rhai wynebau newydd gobeithio. Gwneir apêl arbennig i gyn-aelodau sydd wedi cefnu ar y mudiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf — beth am ailgydio i sicrhau dyfodol y gangen.

Bu'r aelodau canlynol yn casglu at gronfa Ymchwil y Galon: June Owen, Margaret Rees, Nora Parry, Margaret Williams, Mary Evans, Nan Rowlands, Eryl Roberts a Rita Williams. Diolch iddynt ac i bawb a gyfrannodd.

Eisteddfod Bentref Bethel. Mae pob plentyn yn yr Ysgol Gynradd wedi derbyn rhestr o'r testunau ar gyfer yr Eisteddfod a gynhelir 6-8 Tachwedd 1997. Mae copïau ychwanegol yn y siopau lleol neu gan yr ysgrifenyddes ar 670601. Byddwn yn derbyn enwau pawb sydd â diddordeb i ymunod mewn partïon canu, adrodd a dawnsio gwerin yn y Neuadd Goffa

rhwng 3 a 4 o'r gloch bawn Gwener, 19 Medi. Os yn methu dod draw bryd hynny rhowch ganiad ar 670601. Gwneir apêl garedig am hyfforddwy'r partïon hefyd.

Mae pwyllgor yr adran Gelf wedi paratoi testunau diddorol dros ben a gobeithio y bydd pawb wedi bod yn brysur efo'r paent, y glud, y camera a'r cyfrifiadur. Gobeithiwn hefyd weld ymateb brwd i gystadlaethau llenyddol yr Ysgolion Uwchradd. Cynhelir pwyllgor yr Eisteddfod nos Fercher, 24 Medi, am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa.

Bedydd. Bedyddiwyd Sion Emlyn, mab bach Gwyn a Helen Parry, 7 Cae Rhos, Seion ar 27 Gorffennaf yng Nghapel Seion, Llanddeiniolen gan y Parchg Gwynfor Williams.

Clwb 100 yr Ysgol Gynradd. Enillwyr mis Gorffennaf oedd — £20: Mrs J. E. Jones, Trefaes, Lôn Bethel, Caernarfon (1); £12: Emyr Jones, Penmon, Saron (65) £8: Iolo Davies, Cilan, Tan-y-cae (4); £5: Nora Parry, 11 Tan-y-buarth (60); £3: Susan Ll. Jones, 11 Y Ddôl (46). Enillwyr mis Awst — £20: John Jones, Wern Difys (15); £12: W. O. Griffiths, Lôn Glai (22); £8: Mr a Mrs Gareth Jâms, 97 Y Wern, Y Felinheli (25); £5: Gwyn Williams, Bryn Tirion (11); £3: Mair Evans, 1 Fron Helyg (41). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Clwb 200 y Neuadd. Enillwyr mis Mehefin — £20: Iolo Davies, Cilan, Tan-y-cae (23); £10: Idris Jones, Tyddyn Oer (115); £5 yr un: Oscar Evans, Sŵyn Eryri (39); Nan Owen, Berwyn (52); Gwilym Jones, Cynfal (93); Lynnwen Morris, Perthi (40); Meinir Roberts, Cefn Gwynt (167); Eunice Roberts, 4 Y Rhos (218); Medwen Green, Medfyn (188); Gwyndaf Jones, Tŷ Gwyn (203). Enillwyr mis Gorffennaf — £20: Joan Jones, Rhos Chwillog (120); £10: Nan Owen, Berwyn (52); £5 yr un: Margaret Bardsley, Windy Corner (52); Rhiannon Williams, Angorfa (30); Wyn Morris, Fachell (136); Joyce Pugh, 11 Tan-y-buarth (130); Ceridwen Evans, Parciau Rhos (195); Kathleen Bell, Tŷ Newydd (220); Eunice Roberts, 4 Y Rhos (218); Beryl Jones, 25 Bro Rhos (145).

Newyddion o'r Ysgol. Roedd wythnosau olaf y tymor yn llawn o

emosiynau cymysg iawn. Daeth nifer dda iawn o'r rhieni, plant ac athrawon i Westy'r Fictoria, Llanberis i bwffe blasus iawn i orffen yr helfa drysor, nos Wener, Gorffennaf. Diolchodd Mr Gwyn Williams, Cadeirydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon i Mrs Christine Griffiths a Mrs Susan Jones am drefnu'r noson.

Yn ystod y noson cyflwynwyd sieciau i Mr Pierce, Mrs Roberts-Williams a Miss Nia Morgan fel arwydd o werthfawrogiad y rhieni, plant ac athrawon am wasanaeth y tri dros nifer fawr o flynyddoedd. Dymunwyd yn dda i Mr Pierce a Mrs Roberts-Williams ar eu ymddeoliad ac i Miss Morgan ar ddechrau cwrs dysgu yn y Brifysgol ym Mangor. Cafwyd gair o deyrnged gan gadeirydd y llywodraethwyr, Mrs H. Williams a gan Mrs H. Sutherland ar ran yr athrawon.

Yn ystod gwasanaeth olaf y tymor cafodd pob dosbarth yn eu tro gyfle drwy air a chyflwyno cardiau i ddangos eu gwerthfawrogiad i'r tri ac i blant blwyddyn 6 ar ddiwedd eu gyrfa yn yr ysgol gynradd.

Rwy'n siŵr fod pawb fu yn gweld perfformiad o'r sioe gerdd yn cytuno i'r plant lwyddo'n arbennig o dda mewn cyfnod byr o amser i lwyfannu sioe lwyddiannus iawn. Roedd ymateb y gynulleidfa ar y ddwy noson yn profi i bawb fwynhau'r perfformiadau.

Wrth ddiolch i gydweithwyr am eu cyfraniad a'u cyfeillgarwch dros nifer o flynyddoedd edrychwn ymlaen i groesawu Mr Teifion Thomas y pennaeth newydd a Mrs Nia W. Evans y dirprwy bennaeth; Mrs Glenda Owen a Mrs Ellen Ellis fel dwy weinyddes a chychwyn cyfnod newydd yn hanes yr ysgol.

Cydymdeimlo. Yn ystod y mis cyfarfud tri theulu o'r pentref â phrofedigaethau. Bu farw Mrs Catherine Williams, Gerddi; Mrs Phyllis Owen, Cremlyn; a Mrs Sally Ll. Hughes, 34 Bro Rhos.

Estynnir pob cydymdeimlad i'r tri theulu yn eu profedigaeth.

Priodasau. Ddydd Sadwrn, 16 Awst, yn eglwys Llanddeiniolen priodwyd Sioned Eleri Hughes, Cae Rhos â Dylan Trefor Lewis, Deiniolen. Dymunir yn dda i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

Ddechrau mis Gorffennaf yng Nghapel Bethel priodwyd Sharon a Gareth Hughes. Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu yn Saron a dymunir y gorau iddynt hwythau.

Llongyfarchiadau. Yn ystod yr haf cafwyd gwybodaeth am lwyddiant nifer o ieuencid y pentref mewn gwahanol arholiadau. Llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu llwyddiant a dymuniadau gorau iddynt i gyd i'r dyfol mewn swydd a choleg.

Llongyfarchiadau hefyd i Iwan Morris, Treflys ar ei llwyddiant yn Chwaraeon Cymreig Arbennig Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn

ystod mis Gorffennaf. Enillodd Iwan bedair medal aur a thair medal efydd. Cafodd fedal aur am nofio ar y cefn a rhydd a medal efydd am nofio brest ac yn y ras gyfnewid; a chafodd fedal aur yn y gystadleuaeth naid hir a'r ras 200m a medal efydd yn y ras 100m.

Y Carnifal. Er diffyg cefnogaeth trigolion Bethel i'r Carnifal cafwyd diwrnod ardderchog gyda heulwen braf, ddydd Sadwrn, 19 Gorffennaf. Beirniad y gwisgoedd ffansi oedd Maldwyn John (John Albert, Pengelli).

Enillwyr y gwisgoedd ffansi oedd: dan 5: 1, Catrin Jones (Jac yn y bocsi); 2, Llio (Rala Rwdins); 3, Molly a Georgia (Telly Tubies). Dan 8: 1, Aled Gwilym (Albert y Robot); 2, Sioned Eleri (Mae gen i 8 'draw'); 3, Danielle Alisia (Snow White). Dan 11: 1, Nia Glyn (Miss Internet); 2, Ian Morgan (Big Break); 3, Spice Girls Mark I. Dan 15: Cyd-enillwyr 'Spice Girls', Stacy, Sera, Lea, Katie a Joanne. Beic wedi'i addurno: Iwan Morris. Helfa drysor: cyd 1, Lowri ac Angharad, Tan-y-buarth ac Iwan Morris, Treflys a Huw Jones, Cefn. Cystadleuaeth Pêl-rwyd — Ysgol Gynradd: 'Spice Girls'; Ysgol Uwchradd: Tim Candi. Cystadleuaeth Pêl-droed — dan 9: Tim Iwan. Dan 22: Tim Gwion. Oedolion: Brazilian VI. Yn yr adran chwaraeon yr enillwyr oedd — dan 5

genethod Catrin, Mared ac Elin Lois; bechgyn Aaron, Gerallt a David. Dan 8 genethod Despina, Kelly a Dawn; bechgyn Ian, Daniel ac Aled G. Dan 10 genethod Catrin Kayleigh a Ceri; bechgyn Jamie, Martin ac Iwan. Dan 12 genethod Adele, Linsey a Gwenan; bechgyn David, Wayne a Ryan. Dan 15 genethod Bethan a Tracy; bechgyn Marc, Paul a Llion Glyn. Dan 18 bechgyn Marc, Gethin a Paul. Cafwyd ras wy ar lwy hefyd — mae rhestr enwau'r enillwyr gan yr ysgrifenydd! Enillwyr y raffl oedd Eleri Warrington, Manon Griffiths, Goronwy Jones, Pat Millican, Gwenan Williams, Mair Jones, Myfanwy Harper, Mabel Jones, Andre Lambrecht, Carys Brown, Nerys Owen.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y raffl ac i bob un fu'n helpu mewn unrhyw fodd i wneud y diwrnod yn llwyddiant.

Apeliwn am fwy o gefnogaeth gan bentrefwyr Bethel i bwyllgorau'r Neuadd Goffa gan mai criw bychan ohonom sy'n cario'r baich ar hyn o bryd.

AR WERTH

AMIGA 600

2Mb RAM. 560Mb H/D

Yn cynnwys tua 20 gêm, e.e. Sensible World of Soccer, Monkey Island 1 & 2, Civilisation, Theme Park. 1 Joy-pad. Gweithio ar deledu normal. £80.

MAINC CODI PWYSAU

York 7500

1 bar mawr, 'leg extension/curl. 45kg o bwysau i'w ddefnyddio.

£50

(01248) 670102

Cefnogwch ein Hysbysebwy

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

EVAN PARRY (parhad o dudalen 1)

adroddiad i lywodraeth Rwsia yn 1924 ar Gynnig Trydaneiddio'r Undeb Sofietaidd.

Credir mai un o'r rhesymau am iddo adael Seland Newydd oedd oherwydd, er ei fod yn brif beiriannydd trydanol y wlad honno, na chaniatâi'r wlad iddo gael car at ei iws. Ond clywyd iddo ddweud ar ôl hynny iddo gael trên cyfan at ei wasanaeth tra bu yn Rwsia.

Teithiodd wledydd eraill hefyd. Yn 1928 bu'n gweithio ar Gynllun Trydan-dŵr ar yr Afon Uhl i lywodraeth y Punjab. Ef gynlluniodd ac a oruchwyliodd yr holl brosiect a ddechreuodd gynhyrchu yn 1932.

Roedd llywodraeth Ceylon (Sri Lanka heddiw) hefyd wedi bod yn awyddus i wneud defnydd o ddŵr i gynhyrchu trydan ac yn ôl y gwaith ar yr Afon Uhl teithiodd Evan Parry i Ceylon i ystyried y posibiladau o sefydlu cynllun o'r fath yno. Tynnodd blân o gynllun i gynhyrchu a dosrannu'r trydan a chymeradwywyd hwn gan yr awdurdodau yn Ceylon. Gwaetha'r modd torrodd yr Ail Ryfel Byd ac ni chwblhawyd y gwaith hyd 1950. Chafodd Evan Parry ddim gweld y cynllun hwn ar waith. Roedd wedi ymddeol yn 1938. Trodd yn ôl am Seland Newydd wedi ymddeol i ymweld â hen ffrindiau ac ail ymweld â'r ddwy ynys. Roedd ei fab yn fargyfreithiwr yno hefyd yn Wellington. Ond dychwelodd i Gymru cyn diwedd 1938, nid oedd ei iechyd yn dda. Teithiodd o Christchurch yn Seland Newydd a diweddu ei siwrnai yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Claddwyd ef gyda'i rieni a'i chwaer, Catherine Jane, ym medd y teulu yn y fynwent honno.

Buasai'n ddigon hapus heddiw, yn siŵr, o wybod fod ei weddillion wedi eu claddu o dan

'Standard 2' Ysgol Dolbadarn yn 1930



y Marchlyn Mawr ar ystlys Mynyd Elidir sydd erbyn hyn â chynllun trydan-dŵr go arbennig ynghudd yn ei grombil.

NANT ROBERTS

Nodyn Golygyddol:

Dechreuad y stori uchod oedd cais a dderbyniodd y Parchg Tegid Roberts flwyddyn yn ôl bellach gan ŵr o'r enw John Michael o Christchurch yn Seland Newydd. Yr oedd John Michael yn awyddus iawn i gael gwybod ymhle y cafodd y diweddar Evan Parry ei gladdu. Cysylltodd yn gyntaf â'r Archifdy yng Nghonwy gan mai yn Llandudno y treuliodd Evan Parry ei ddyddiau olaf. Cysylltodd hwythau â Chlerig Mewn Gofal Plwyf Llandinorwig, ac o chwilio yng Nghofrestr y Claddedigaethau gwelwyd mai ym mynwent Eglwys Crist, Llandinorwig y cafodd ei gladdu a hynny ar 21 Rhagfyr 1938. Wedi chwilio yn y fynwent cafwyd hyd i'r bedd yn y rhan ogleddol, wrth ochr

Anfonwyd y llun hwn atom gan Mrs Cassie Lloyd (Wood gynt), 3 Maes y Berllan, Melin-y-coed, Llanrwst. Mae enwau'r plant ar gefn y llun. Byddai'n falch iawn o dderbyn gair oddi wrth rai o'i hen ffrindiau. Anfonwch bwt o lythyr ati neu ffoniwch hi. Ei rhif ffôn yw (01492) 641882.

y llwybr sydd yn gylch o gwmpas adeilad yr eglwys. Yr oedd eiddew a'r drain yn drwchus arni ac o'i chwmpas ond wedi clirio a thwtio tipyn daeth carreg fedd hardd o farmor du i'r golwg gydag enw Evan Parry ar un ochr iddi ac enwau ei rieni, William ac Elizabeth Parry, Bron Elidir, Dinorwig, a'i chwaer, Catherine, ar yr ochr arall. Y cam nesaf wedyn oedd rhoi ychydig o baent ar y rheiliau a thynnu llun y bedd i'w anfon i Seland Newydd. Cafwyd ymateb bonheddig i'r newydd fod gweddillion y diweddar beiriannydd enwog yn gorwedd ym mynwent Llandinorwig a chafwyd mwy o'i hanes a llun ohono yn ddiweddarach drwy'r post. Os oes unrhyw un o ddarlentwyr yr Eco yn gwybod mwy o hanes y gŵr enwog hwn a'i deulu yna cysylltwch â'r Parchg Tegid Roberts, Arwel, Llanrug neu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug.

Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Tomi Parry, Eric Humphreys, Leonard Roberts, Alun Seral, Tom Tolman, Gordon Ward, Norman (telephone). Ail res: Huw Buck, Winnie (Clegir), Megan Branwen, Hilda Wyn, Mary Closs, Megan (Tŷ Capel Wesla?), Jennie May Griffiths, Beti Owen, Nora Jones, Annie Wilson, Verley Griffiths, Carrie Williams. Drydedd rhes: Gwilym (Blaen Ddôl), Beti Wyn (Goodman St.), Cassie Wood, Cathleen Evans, Nancy Thomas, Annie May (Goodman St.), Eirlys Thomas, Nora Hughes, Lena Pierce Owen, Howel Davies. Rhes flaen: Thomas John Roberts, Douglas (Pant Cafn), Frank (siop cigydd), John Davies (Manllwyd), Wilbert (Charlotte St.), John Elias Arfon (Pentre Castell), John Owen Jones (Brithdir wedyn), Thomas Hugh (Gelli Hirbant), Huw Llywelyn (Cambrain Terrace).

YMDDIHEURIAD

Ymddiheurwn nad yw'n bosib cynnwys 'Llythyr o'r 'Merica' yn y rhifyn hwn. Fe ymddengys yn rhifyn Hydref o'r Eco.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy



R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Ysgol Sul. Bydd Ysgol Sul Capel Coch yn ailddrechrau ddydd Sul, Medi 7, am 2 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at weld y plant eto ac mae croeso i unrhyw blentyn gychwyn dod i'r Ysgol Sul am y tro cyntaf hefyd.

Cyfarfod Plant. Bydd y Cyfarfod Plant yn ailddrechrau yn festri Capel Coch ddydd Mawrth, Medi 23, yn union wedi i'r ysgol orffen. Croeso cynnes i blant oedran ysgol gynradd.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn. Enillwyr mis Gorffennaf oedd; £35, Delyth Roberts, 50 Maes Padarn; £25, Mr R. Jones, 1 Preswylfa; £15, Mrs N. Williams, Bryn Mair; £10, Mrs D. Tomos, Haulfryn; £5, Mr D. Roberts, Y Bistro. Pelen eira: £50, Mrs M. Edwards, 40 Maes Padarn; £50, Mr G. Roberts, Ffordd Capel Coch.

Ysgol Dolbadarn. Cafwyd mabolgampau llwyddiannus cyn diwedd tymor yr haf a bu cystadlu brwd drwy'r prynhawn. Rhannwyd y *Victor Ludorum* rhwng Iwan Morris a Robyn Sweeney; a rhannwyd y *Victrix Ludorum* rhwng Ceri Jones ac Ayilsa Orlik. Enillwyd cwpan y tŷ buddugol gan dŷ Seiont.

Ymddeolodd dwy o athrawon yr ysgol ar ddiwedd y tymor. Bu Mrs Eirlys Pierce yn dysgu yn yr ysgol ers iddi ddod o'r colen, yn agos i 30 mlynedd yn ôl; a bu Mrs Nan Humphreys yma ers 10 mlynedd. Bu'r ddwy yn rhannu swydd â'i gilydd yn ddiweddar gan ddysgu'r un dosbarth am ran o'r wythnos. Mae'r

ddwy yn ymddeol yn ifanc wrth gwrs. Diolchwn iddynt am eu gwasanaeth a'u gofal diflino am blant yr ysgol bob amser, a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol. **Carnifal.** Cynhaliwyd y Carnifal ddydd Sadwrn, Gorffennaf 19, a chafwyd diwrnod hynod o lwyddiannus. Mae'n amlwg bod ymdrech y pwyllgor i berswadio rhagor o bobl i gymryd rhan yn y cystadlaethau gwisg ffansi wedi llwyddo. Roedd digon o waith i'r beirniad, Judith Humphreys. Roedd pob math o weithgareddau ymylol gan gynnwys yr ornest Cawr yr Wyddfa yng ngofal Orig Williams. Cafwyd diwrnod heulog poeth a llond y cae o bobl. Diolch yn fawr iawn i'r pwyllgor bach ond hynod weithgar sy'n trefnu'r Carnifal o flwyddyn i flwyddyn.

Capel Jerusalem. Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach, 1 Gorffennaf, o dan lywyddiaeth Mr Bert Thomas, cafwyd trafodaeth fywiog ac adeiladol gyda phawb yn cymryd rhan ar y testun 'Beth a Gredwn'. Yn dilyn gyda sgwrs dros luniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 2 Medi, pryd y disgwylir y Parchg Huw Gwynfa a Mair Roberts fel gwesteion. Croeso cynnes i bawb.

Undeb y Mamau. Ddydd Mawrth, 8 Gorffennaf, cafwyd ein trip blynyddol a'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes, oedd y trefnydd a'r gyrrwr am y diwrnod. Yn gyntaf ymwelwyd â chofeb Hedd Wyn yn



Ceri, Ayilsa, Robyn ac Iwan — enillwyr Mabolgampau'r Ysgol.

Nhrawsfynydd ac yna ymlaen i'r Ysgwrn, Cwm Prysor, ac yno fe'n croesawyd gan Mr Gerald Williams, nai Hedd Wyn, i'r cartref. Yno gwelwyd y cadeiriau a enillwyd a rhyfeddwyd ar y cerfio cywrair yn enwedig y 'Gadair Ddu'. Y mae Mr Williams yn dal i fyw yn y cartref.

Cawsom ginio yn y Cross Foxes ac am hanner awr wedi dau cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Pedr, Machynlleth, gefaill Undeb y Mamau Llanberis. Gweinyddwyd gan y Parchedigion Emyr Rowlands a Philip Hughes.

Roedd merched eglwys Machynlleth wedi paratoi te ar ôl y gwasanaeth a chafwyd croeso cynnes ganddynt.

Ar y ffordd adref cafwyd taith drwy'r Bala a'r cylch a lluniaeth ysgafn mewn gwesty ym Metws-y-coed. Diwrnod a fwynhawyd gan yr aelodau i gyd. Diolch yn fawr i'r Rheithor.

Newyddion o'r Ysgol Feithrin. Bydd yr ysgol yn ailddrechrau ar 2 Medi yn y lleoliad newydd, sef Y Ganolfan Gymuned, Llanberis. Bydd sesiynau yn dechrau am 9.15 hyd 11.45 (2½ awr) o ddydd Llun i ddydd Iau a chost un sesiwn yw £1.65 (£6.60 am bedair). Bydd croeso i blant 2½ oed sy'n byw y tu allan i Lanberis i

fynychu'r ysgol — cysylltwch â'r arweinydd ar (01286) 871567. Mae'r ysgol yn ystyried dechrau sesiynau yn y pŵn ar ôl y Nadolig. Cysylltwch â'r un rhif os oes gennych ddi-ddordeb. Bydd hyn ar gyfer plant 2½ i 4 oed.

Cafwyd noson lwyddiannus yng Ngwesty Dolbadarn ym mis Mehefin pan godwyd £362.02 i gronfa'r Ysgol Feithrin. Diolch i bawb a gyfrannodd yn hael ac i bawb a ddaeth yno i gefnogi.

Fe aeth y plant ar ymweliad a Fferm y Foel, Môn, ar eu trip blynyddol a chafwyd amser da iawn yng nghanol yr anifeiliaid ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Dymuniadau gorau i'r plant bach fydd yn 'blant mawr' wrth iddynt ddechrau yn Ysgol Dolbadarn eleni. Dymunwn flynyddoedd o hapusrwydd iddynt.

Croeso i Anti Delyth (Delyth Tomos) sydd wedi dechrau yn yr Ysgol ers mis Ebrill a gobeithir y bydd hi ac Anti Catherine yn hapus yn lleoliad newydd yr Ysgol Feithrin.

Hoffai'r Ysgol ddiolch yn fawr i Rheilffordd Llyn Padarn am roi trip ar y trên i'r plant bach. Cafwyd siwrne fendigedig.



Kenny, Philip, Ayilsa a Nia, capteiniaid y tîm buddugol gyda chwpan a gyflwynwyd i'r Ysgol er cof am y diweddar Elfed Peris Morris.

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



Cadetaid newydd adran Llanberis o Urdd Sant Ioan noson eu derbyn yn gadetiaid mewn gwasanaeth yn Eglwys St. Padarn.



ALOE VERA


Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

Llongyfarchiadau i Edward Rogers, 30 Stryd Newton ar ennill gradd anrhydedd B.Add. mewn addysg gorfforol a gwyddoniaeth yng Ngholeg Prifysgol John Moores, Lerpwl. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd fel athro yn Ysgol Uwchradd Penketh, Warrington.

Llongyfarchiadau i Gareth Roberts (mab Rhiannon) ar ei lwyddiant wedi iddo gwblhau cwrs yng Nglynllifon. Mae Gareth yn bwriadu gweithio ym maes garddio.

Llongyfarchiadau i Meira Evans (Jones), merch Appi a'r diweddar Owen Emlyn Jones (Nowi Maes Llwyn) ar gael ei phenodi yn brifathrawes Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton, ym Mhontypridd.

Llongyfarchiadau i Rheon Wyn Roberts, 22 Stryd Goodman, ar ennill 'Myfyriwr Coedwigaeth y Flwyddyn' yng Ngholeg Meirion-Dwyfor yng Nglynllifon, gan dderbyn tarian Cymdeithas Coedwigaeth Frenhinol Gogledd Cymru. Mae Rheon wedi cwblhau tair blynedd yn y coleg gan ennill Diploma Cenedlaethol mewn Coedwigaeth a'r Amgylchfyd. Dymunwn pob llwyddiant iddo ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth ym mis Medi.



Diolchiadau:

Dymuna John a Marion Roberts, Bryn Mel, ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu a'u ffrindiau am drefnu parti ardderchog i ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch am wneud yr achlysur yn un mor bleserus. Yn ystod mis gorffennaf cawsant wahoddiad i barti ym Mhalas Buckingham lle cafodd John sgwrs ddifyr gyda'r Dug Caeredin.

Dymuna Mrs Mary Thomas, Gwynant, Olgra Terrace a'r teulu ddiolch o galon am y llu cardiau a phob arwydd o gydymdeimlad a

ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl, Gwyrfaï Thomas. Diolch arbennig i'r Dr Robin Parry a meddygon a nyrsus Ward Aran, Ysbyty Gwynedd; i'r Parchg Emyr Owen a Mr Derek Jones am eu gwasanaeth ac i'r teulu a'r cymdogion am eu caredigrwydd. Diolch i chwi oll.

Dymuna Eddie a Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanberis ddatgan eu gwerthfawrogiad i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem ar 10 Awst.

Dymuna Daniel Orritt, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd cyntaf.

Dymuna teulu y diweddar Eric Roberts, Rochdale (Dakota gynt) ddatgan eu diolchgarwch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cardiau a'r galwadau ffôn.

Dymuna Beryl, 8 Maes Derlwyn ddatgan ei diolch diffuant i'w theulu, cymdogion caredig, ffrindiau a phawb a ddangosodd garedigrwydd iddi yn ystod y pedwar mis y bu'n gaeth i'w chartref oherwydd gwaeledd. Diolch arbennig iawn i Dr Gwyn Williams a Dr Robin Parry am eu gofal diflino. Diolch yn fawr i bawb.

Eisteddfod Meirion. Llongyfarchiadau i Tim Ward, 4 Maes Padarn ar ei lwyddiant mawr yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion. Enillodd Tim gystadleuaeth y Lieder dan 30 oed. Cafodd lwyfan hefyd yng Nghystad-



Gwen, brenhines y Carnifal, gyda Angharad, Carys ac Andrew, aelodau'r llys.

leuaeth Goffa Osborne Roberts ac yng nghystadleuaeth bwysig Ysgoloriaeth Towyn Roberts.


Dymuna Mrs Ena Jones, 3 Coed y Ddôl, Llanberis ddiolch i'w thelu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau, cardau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Llandudno. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Cilla Wellington Jones (Auntie Cilla o Lanberis gynt) ddiolch o galon i'w chymdogion, ffrindiau a'i theulu am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar 18 Awst.

Dymuna Bob a Nellie Carveth, Henryd, Olgra Terrace ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu o gardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.



Caffi Sali Mali. Criw pwyllgor yr Eisteddfod a enillodd yng Ngharnifal Llanberis a Carnifal Nant Peris.



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro
Nos Wener olaf bob mis



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)




Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263



Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Owain Machno Lloyd, Mark Owen, Gareth Wyn Roberts, Dewi G. Thomas.

Rhes flaen: Cheryl Edwards, Nia ac Iwan Griffith, Iona Wyn Williams.

Capel y Rhos. Ar y 6ed o Orffennaf, o dan arweiniad a hyfforddiant y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, derbyniwyd wyth aelod ifanc o'r eglwys yn gyflawn aelodau. Gwnaeth pob un eu gwaith yn rhagorol. Derbyniodd yr wyth Feibl a thystysgrif gan Mr Iolo Llywelyn ar ran yr eglwys. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Elliw Geraint merch Mr a Mrs Geraint Hughes, Cwellyn, Ffordd yr Orsaf a'u derbyn yn aelodau cyflawn. Pleser oedd bod yn bresennol yn yr oedfa.

Apêl Law yn Llaw: Yn sytod mis Mai dosbarthwyd amlenni o gwmpas cartrefi'r eglwys tuag at yr apêl. Os oes gan unrhyw un amlen a ydyw'n bosib i chwi gysylltu ag unrhyw un o'r swyddogion mor fuan a bo modd.

Ymdrechodd criw bychan yr Ysgol Sul ar noson fendigedig o braf i gerdded llwybr igam-ogam o Ddinorwig i Nant Peris. Gobeithir gasglu tua £150. Erbyn y daw'r Eco o'i wely bydd 'Te Cymreig' yr eglwys, o dan ofal y chwiorydd, wedi bod. Gobeithir ein bod fel eglwys wedi cyrraedd y nod ariannol tuag at yr apêl arbennig hon drwy ein hymdrechion. Gwerthfawrogi pob cyfraniad.

Ysgol Sul: Wedi seibiant gwyliau'r haf bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar y 7fed o Fedi am 10 o'r gloch. Estynnir croeso i bawb droi i mewn ac i ailgydio ym mwrlwm y gweithgareddau: 27 Medi — Sbrî'r Ysgol Sul yn Ysgol Brynrefail; 5 Hydref — Gwasanaeth Diolch-garwch y Plant.



Criw Ysgol Sul Capel y Rhos wedi iddynt gwblhau y daith gerdded o Ddinorwig i Nant Peris. Tynnwyd y llun gan Mr Islwyn Jones.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

NEUADD YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

NOS WENER, 10 HYDREF 1997

am 5.30 p.m. (drysau ar agor 5 p.m.)

Beirniaid:

Cerdd a Cherdd Dant: Menai Williams

Adrodd a Llên: Selwyn Griffith

Gosod Blodau, Coginio a Thecstiliau: Manon Williams

Arlunio a Thri Dimensiwn: Helen Jones

Ffotograffiaeth: Islwyn Jones


Dawns: Judith Harding

Cyfeilydd: Megan Roberts

Dyddiad derbyn Celf a Chrefft: nos Lun, 6 Hydref 1997

Noson Ysgrifennu: nos Fercher, 17 Medi 1997

rhwng 5.00 p.m. a 9.00 p.m.



Mrs Meinir Williams yn cael ei hanrhegu ar achlysur ei hymddeoliad fel gweinyddes feithrin yn Ysgol Llanrug.

Priodas. Yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen ar y 7fed o Fehefin priodwyd Ellen Wyn, merch Dilys a Neville Williams, 3 Victoria Terrace, Deiniolen â Tecwyn, mab Hefina a Dick Jones, 8 Rhosrug, Llanrug. Dymuna Ellen a Tecwyn, sydd wedi ymgartrefu yn 1 Caradog Place, Deiniolen, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Marwolaeth. Trist iawn oedd y newydd am farwolaeth Beth Jones (Nyrs gymunedol). Bu'n gysylltiedig â llawer iawn o deuluoedd Llanrug a'r cylch yn ei swydd a mawr fu'r diolch iddi am ei charedigrwydd a'i gofal bob amser. Bydd colled fawr i bawb ac anfonwn ein cydymdeimlad i Hefin, John, Mark a Tudor.

Genedigaeth. Llongyfarchiadau i Selwyn ac Anwen Morris, Gwelmon ar ddod yn daid a nain unwaith eto pan anwyd merch fach i Siwsan a Neil ym Mhen-y-groes.

Parti Clychau'r Grug. Llongyferchir y parti ar eu datganiad hyfryd o'r 'Gog Lwydlas' a threfniant arbennig Glenys Griffiths o'r 'Hen Ferchetau'. Dymuna'r genod ddiolch i Glenys am ei gwaith diflino ac am y cyfle a'r pleser o gael cystadlu ar lwyfan y Genedlaethol a hynny yn erbyn partïon adnabyddus a phrofiadol iawn. Bu'n brofiad cofiadwy dros ben.

Llwyddiant. Llongyfarchiadau mawr i Ffion Orwig, Buarthau ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth goffa Lady Herbert Lewis, sef yr alaw werin agored, yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Ffion lwyddo yn y gystadleuaeth hon. Dalier ati.

Daeth llwyddiannau a gwobrau lu i'w thad hefyd yn yr amrywiol sioeau amaethyddol. Cipiodd Irfon Thomas nifer o wobrau gyda'i adar arbennig. Llongyfarchiadau mawr Irfon

Llongyfarchiadau:

— i Len Brookes ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Capel Garmon, Llanrwst. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd ym mis Medi;

— i Mr a Mrs Gruffydd Williams, Lôn Las, Crawia ar ddathlu eu priodas ddiamwnt ar yr ail o Orffennaf;

— i blant a phobl ifanc y pentref sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau ysgol a cholegau. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol;

— i Michelle Louise, 6 Tal y Bont, Llanrug ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth alaw werin dan 16 oed yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen; ac hefyd yn ail yn y gystadleuaeth alaw werin dan 16; ac ail ar y gystadleuaeth piano dan 16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Da iawn chdi.

Llongyfarchiadau arbennig hefyd i holl aelodau Band Arian Llanrug. Daeth y Band yn ail yn eu cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Diolchiadau:

Dymuna Catrin Thomas, Bron y Nant, Pontrhyallt ddiolch i bawb am yr holl roddion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei graddio, ac ar ddathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed ym mis Gorffennaf.

Dymuna Hefin, John, Mark a Tudor, Dolwen, Pontrhyallt ddatgan eu diolchiadau i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli gwraig a mam annwyl. Diolch yn arbennig i feddygon a staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, Y Feddygfa, Llanberis ac i'r Parchedigion Philip Hughes ac Emyr Owen am eu gwasanaeth. Hefyd i E. W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau trylwyr. Derbyniwyd rhoddion er cof am Nyrs Beth i'w rhannu rhwng Ward Alaw a'r Feddygfa.

Dymuna Mrs Sarah E. Thomas (Sally), Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf yn diolch o galon i'w pherthnasau, cyfeillion a'r meddygon am eu caredigrwydd a'r gofal a gafodd yn ystod ei anhwylder yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Meinir Williams, Arwelfa, Bryn Moelyn yn diolch o galon i blant, rhieni ac athrawon Ysgol Gynradd Llanrug am y rhodd a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei hymddeoliad fel gweinyddes feithrin yr ysgol. Hefyd diolch i'w chydweithwyr am flynyddoedd hapus iawn.

ECSTRAFAGANSA!

Sioe Wallt
gan CERI a MORUS
a'u modelau

Nos Fawrth, 9 Medi 1997
yn Ysgol Gynradd Llanrug
am 7.30 o'r gloch

Mynediad: £2 Plant: £1

Trefnir gan Ferched y Wawr
Yr elw tuag at Ymchwil Cancr y Fron
CROESO CYNNES I BAWB

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Eglwys Santes Helen. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ddydd Sul, 7 Medi wedi gwyliau'r haf. Byddai'r athrawon yn falch iawn o gael cymorth rhieni o bryd i'w gilydd yn yr Ysgol Sul gan fod nifer o ddisgyblion ar hyn o bryd yn cael eu dysgu ar y cyd â phlant sydd o wahanol oedran iddynt. Mae'r Ysgol Sul hefyd angen allweddell (keyboard) i gymryd lle'r piano sydd bellach wedi gweld dyddiau gwell. A oes unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco all ein cynorthwyo? Cysylltwch â Mrs Jennifer Hughes, Aljen, Penisarwaun (Ffôn: 872485).

Ddydd Sul, 14 Medi, cynhelir gwasanaeth Gosber yn Gymraeg yng Nghadeirlan Bangor fel rhan o ddathliadau Gŵyl Flynyddol Deiniol Sant, nawddsant yr esgobaeth. A wnaiff y plwyfolion hynny sy'n dymuno mynd i'r gwasanaeth roi eu henwau i'r Parchg Tegid Roberts neu'r Wardeiniaid cyn gynted a bo modd.

Y Sul canlynol, 21 Medi, bydd y Parchg Ganon Geraint Wyn Edwards, Deon Gwlad Twrcelyn ar Ynys Môn, a chyn-ficer y plwyf, yn dathlu 25 mlynedd yn y weinidogaeth ordeiniedig. Bwriedir trefnu ymweliad ag un o'i eglwysi, sef eglwys Llanfechell ar gyfer y gwasanaeth a gynhelir am 10 o'r gloch y bore Sul hwnnw, er mwyn i ni, fel gefaill eglwys, gael bod yn rhan o'r dathliad. A wnaiff y plwyfolion sy'n dymuno mynd i Lanfechell roi eu henwau i'r Parchg Tegid Roberts neu'r Wardeiniaid cyn 14 Medi.

Ysgol Sul Bosra. Bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau am 10 a.m., Medi 7fed. Croeso cynnes i aelodau newydd. Diolchir i Mrs Elizabeth Jones am drefnu trip gwerth chweil i Southport. Ymunodd Ysgol Sul Santes Helen â ni a chafodd llond bws eu plesio'n fawr. Diolch i Elizabeth ac i Ann Patterson am y trefniadau trylwyr.

Dymuniadau Da. Pob dymuniad da i Trystan Larsen fydd yn cychwyn fel pennaeth Ysgol Rhostryfan; ac i Cai Larsen fydd yn cychwyn fel pennaeth Ysgol Trefor. Pob llwyddiant i'r ddau ohonoch.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Osian Dafydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 21ain ar

Awst 12. Dymuna Osian ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar yr achlysur arbennig hwn.

Dymuna Carol Porter ddiolch i bawb am y caredigrwydd a dderbyniodd ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Pob dymuniad da hefyd i Carys Jones, Myfanwy Parry ac Ann a Dafydd Ifans wedi eu hymddeoliadau a dymuna'r pedwar ohonynt ddiolch i bawb am eu dymuniadau da i'r dyfodol.

Genedigaeth. Llongyfarchiadau mawr i deulu Gors, Waun ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf; wŷr bychan, sef mab i Yvonne a'i gŵr. **Ysgol Gymuned Penisarwaun.** Diwrnod olaf tymor yr haf oedd diwrnod olaf Mrs Ann Thomas yn yr ysgol ar ôl dwy flynedd ar bymtheg o wasanaeth. Ar ddiwedd gwasanaeth arbennig cyflwynwyd i Mrs Thomas gadwyn aur a brynwyd ar ran plant, staff, rhieni a chyfeillion yr ysgol fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am wasanaeth mor ffyddlon dros y blynyddoedd. Cyflwynodd Mrs Mair Hughes, cadeirydd y Cyfeillion, rodd i Mrs Thomas ar ran y Cyfeillion ym mhresenoldeb torf o rieni a drodd i mewn i'r Neuadd yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Ar ran pawb ohonom dymunir ymddeoliad hapus a hir oes i chwi Ann, yn ogystal â'n diolch am eich cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd.

Y diwrnod hwn oedd diwrnod olaf Miss Clare Tudor a Miss Nicola Davies hefyd. Ar ddechrau'r tymor newydd fe fydd Clare yn cychwyn ar ei gyrfa fel gweinyddes feithrin yn Ysgol Nebo ac ymfalchïwn yn ei phenodiad ac fe dymunir yn dda iddi yn ei swydd newydd. Dymunir yn dda hefyd i Nicola yn ei gyrfa newydd ar gyfer mis Medi.

Llwyddiant. Llongyfarchiadau i gyn-ddisgyblion yr ysgol ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU a Lefel-A eleni. Pob lwc iddynt i'r dyfodol.

Pob dymuniad da i bob un o'r pentref fydd yn cychwyn eu gyrfa yn yr Ysgol Uwchradd eleni ac yn yr amrywiol golegau.

Diolch. Dymuna Mrs Ann Robyns Thomas ddiolch o galon i blant, rhieni, athrawon a'i chydweithwyr yn Ysgol Gymuned Penisarwaun am y rhoddion, blodau, cardiau a'r holl

ddymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch hefyd am ddeunaw mlynedd hapus iawn o ddysgu. Bydd llawer o atgofion melys yn aros yn y cof.

Dymuna Huw Tegid Roberts, Llanrug, ddiolch i bawb am y dymuniadau da a dderbyniodd am lwyddo yn ei arholiadau Lefel-A.

Gwellhad. Anfonir cofion annwyl i Mrs Alice Thomas, Waun, wedi'i thriniaeth yn yr ysbyty a gobeithir ei bod yn gwell. Dymuna Mrs Thomas ddiolch i bawb am eu gofal, galwadau ffôn, ymweliadau a'r cardiau lu a dderbyniodd yn ystod ei gwaelled.

Gobeithio hefyd fod pawb arall yn y pentref yn teimlo'n well ar ôl yr haf bendigedig hwn. Brysiwch wella i gyd.

Pwyllgor Neuadd. Cynhaliwyd noson Bingo ym mis Gorffennaf i dynnu'r Raffl Fawr. Dymunir diolch i bawb a werthodd ac a brynodd docynnau. Diolchir yn arbennig i'r rhai a roddodd y gwobrau gan sicrhau elw sylweddol o dros £300. Diolch i bawb a gefnogodd y weithgaredd hon mewn unrhyw fodd. Bydd yr elw yn mynd tuag at archebu sistem sain ar gyfer yr ysgol a'r gymuned. Tynnwyd Clwb Cant mis Awst a'r enillwyr oedd: 1, Gethin Philips, 7 Tai Arthur; 2, Brenda Richardson, 6 Bryn Hyfryd; 3, Eirlys Jones, 5 Bryn Hyfryd.

Eisteddfod Bentref. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ym mis Hydref. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf — gwylwch amdanynt.

Y Clod a'r Bri. Do, fe fu Eisteddfod Y Bala yn un i'w chofio i lawer. Llongyferchir John Eifion ar ei llwyddiant ysgubol o gipio'r wobr gyntaf a bu bron iawn iddo gipio'r rhuban glas hefyd. Pigion o ddyddiadur yn cynnwys elfen o hwyl a digrifwch ddaeth a Gwobr Goffa Caradog Prichard i Graham Jones, Gwyddfor. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau chonoch a daliwch ati, mae'r pentrefwyr yn ymhyfrydu yn eich llwyddiannau.

Fe wyddom fod nifer o adar ac anifeiliaid a'u perchnogion wedi cael llwyddiannau niferus yn yr amrywiol sioeau amaethyddol hefyd. Llongyfarchiadau i chwi oll. Llongyfarchiadau i Len Porter ar ennill gwobr gyntaf yn Sioe Llanellwedd am gerfio ffon. Cerfiodd Len gi Labrador du ar ei ffon fugail hardd.

Urdd Bentref. Bydd yr Adran yn ailgychwyn wedi gwyliau hanner tymor. Bydd manylion yn y rhifyn nesaf.

Ysgol Feithrin. Dymuna Carol Porter, Margaret ac Avril Williams ddiolch i'r

Cylch Meithrin am eu rhoddion caredig ac i'r mamau a'r plant bach am eu cardiau hardd. Dymunir pob hwyl i'r plant bach sy'n dechrau yn yr Ysgol Gymuned.

'Ti a Fi'. Cynhelir cyfarfod 'Ti a Fi' bob dydd Mawrth am 1.15 yn Neuadd yr Eglwys gan ddechrau 2 Medi. Croeso cynnes i unrhyw riant neu warchodwr.

Plygu'r Eco. Penisarwaun fydd yn gyfrifol am blygu rhifyn mis Hydref o'r Eco. Erfynnir am wirfoddolwyr i ddod i helpu'r criw ffyddlon yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, 2 Hydref, o 6 p.m. ymlaen. Diolch o galon.

DRAENOG



Mae rhai o'r fusutors yma'n betha swnllyd a digywilydd. Cafodd gŵr o Goed y Glyn ei ddeffro'n gynnar un bora gan swm mwya dychrynlyd. Trwy ffenest y llofft gwelodd fws mini yn stryffaglo troi rownd yn y lôn ... ar y palmant ... yn yr ardd ... wrth ei ddrws ffyrnt! Wrth glywed y gwahoddiad bygythiol iddo'i heglu hi mae'n beryg bod y gyrrwr druan wedi cael argraff go anffodus am gynhesrwydd croeso ARFON i bobol ddiarth. Tipyn o syndod oedd deall wedyn mai un o'r cymdogion oedd y gyrrwr wedi'r cwbl, efo bws mini'r ysgol. Jiw, Jiw, stori dda!

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol
Ffôn: 871174

Arholiadau. Llongyfarchiadau mawr i nifer o gynddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi a wnaeth mor dda yn eu arholiadau coleg yr haf yma. Derbyniodd y canlynol raddau ardderchog yn eu gwahanol bynciau: Gwawr Williams, Hafle, B.A. Cymdeithaseg yng Ngholeg Goldsmith, Llundain; Sara Woods, Fron Heulog, B.A. Cymraeg ym Mangor; Barry John Thomas, Pentre Helen, B.A. Cymraeg ym Mangor; Sion Hughes, Ty'n y Weirglodd, Ll.B. Y Gyfraith yn Aberystwyth; a Dyfan Sion, Ceris, B.Sc. Gwleidyddiaeth yn Aberystwyth. Enillodd Elena Williams, Hafod Oleu, Wobr Goffa Karen Ann Roberts i fyfyrwr gorau'r flwyddyn ei chwrs yng Ngholeg Menai. Llongyfarchiadau hefyd i Lyndsey Vaughan Parry, Sian Elen Thomas a Tanya Thomas ar eu llwyddiant yn eu arholiadau Lefel-A, a dymuniadau gorau iddynt wrth iddynt gychwyn ar eu cyrsiau prifysgol yn yr hydref. Llongyfarchwn hefyd bawb a lwyddodd yn eu arholiadau TGAU a phob hwyl iddynt hwythau wrth iddynt ddechrau eu cyrsiau pellach mewn ysgol neu goleg.

Ebeneser a Chefnywaun. Bydd Dosbarth y Chwirydd yn ailddrechrau am 2 o'r gloch ddydd lau, Medi 11, yn festri Ebeneser. Cawn sgwrs gan Mrs Olwen Williams, Tudweiliog, ac estynnir croeso cynnes i aelodau newydd.

Cyfarfod y Plant. Byddwn yn ailddrechrau'r Cyfarfod Plant yn festri Ebeneser brynhawn lau, Medi 18, yn union wedi'r Ysgol. Croeso cynnes i unrhyw blentyn oedran ysgol gynradd.

Eglwys Crist Llandinorwig. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Eco ymddangos bydd Cangen Deiniolen o Undeb y Mamau wedi cychwyn ar weithgareddau tymor arall. Y siaradwr gwadd yn nghyfarfod Medi oedd y Br Barry H. Davies, Creigle, Brynrefail sy'n Swyddog Morwrol Gwynedd. Yng nghyfarfod mis Hydref, nos Lun y 6ed, disgwylir siaradwr o'r Gymdeithas sy'n rhoi cymorth i bobl a theuluoedd sy'n dioddef o'r afiechyd 'Alzheimers'. Miss Jean Moeller a'i ffrind Margaret fydd yn dangos sleidiau o'u taith i Awstralia yng nghyfarfod mis Tachwedd.

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd.

Ddydd Sul, 14 Medi, cynhelir gwasanaeth o'r Gosber yn Gymraeg yng Nghadeirlan Bangor fel rhan o ddathliadau Gŵyl Flynnyddol Deiniol Sant, nawddsant yr esgobaeth. A wnaiff y plwyfolion hynny sy'n dymuno mynd i'r gwasanaeth roi eu henwau i'r Parchg Tegid Roberts neu'r Wardeiniaid cyn gynted â bo modd.

Y Sul canlynol, 21 Medi, bydd y Parchg Ganon Geraint Wyn Edwards, Deon Gwlad Twrcelyn, Ynys Môn, a chyn Ficer y plwyf, yn dathlu 25 mlynedd yn y weinidogaeth ordeiniedig. Bwriedir trefnu ymweliad ag un o'i eglwysi, eglwys Llanfechell ar gyfer y gwasanaeth a gynhelir am 10 o'r gloch y bore Sul hwnnw. A wnaith y rhai hynny sy'n dymuno mynd i Lanfechell roi eu henwau i'r Parchg Tegid Roberts neu'r Wardeiniaid cyn 14 Medi, os gwelwch yn dda.

Am 7.30 o'r gloch yr un noson yn Eglwys Crist, cynhelir y trydydd o'r cyngherddau blynyddol a drefnir yn ystod wythnos Gŵyl Mihangel Sant a'r Holl Angylion i godi arian tuag at gronfa atgyweirio'r eglwys. Eleni mae Eglwys Crist yn dathlu 140 o flynyddoedd ers ei sefydlu a'i chysegru. Yr artistiaid sydd wedi eu gwahodd i'r cyngerdd eleni yw Côr Meibion Dyffryn Peris; aelodau o Seindorf Arian Deiniolen; yr unawdydd Bethan Fôn Jones o Fethel; ac Angharad Wyn Jones, Rhos-isaf, sydd yn delynores ifanc addawol iawn. Arweinydd y cyngerdd fydd Mr Elwyn Jones, Llanberis a'r gyfeilyddes fydd Mrs Glenys Griffith, Bethel.

Mae'r gwaith o atgyweirio'r to uwchben y gangell a throir y Festri yn Gapel, lle bydd nifer dda o ddodrefn a ddaeth o Eglwys y Santes Fair, Dinorwig, bellach yn tynnu tua'r terfyn. Gobeithir cael seremoni i agor y Capel yn swyddogol cyn yr hydref. Bydd angen oddeutu 25 o gadeiriau pren newydd yn y Capel felly os oes unrhyw un yn dymuno rhoi cadair yn rhodd, neu er cof am deulu a fu'n addoli yn St. Mair, cysyllter â'r Clerig Mewn Gofal, y Parchg Tegid Roberts.

Llongyfarchiadau. Prysus iawn fu hanes Jennie Lyn, Cartref, Rhes Cynfi yn ystod yr wythnosau diwethaf. Wedi taith i Awstralia gyda Band Pres leuenctid Gwynedd ddechrau mis Gorffennaf fe lwyddodd Jennie i gipio'r wobwr gyntaf ar yr unawd pres o 12-15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala; hefyd yn ddiweddar llwyddodd gydag anrhydedd yn ei arholiad theori gradd 5. Llongyfarchiadau mawr iti Jennie a phob lwc i'r dyfodol.

Priodas. Yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen ar y 7fed o Fehefin priodwyd Ellen Wyn, merch Dilys a Neville Williams, 3 Victoria Terrace, Deiniolen â Tecwyn, mab Hefina a Dick Jones, 8 Rhosrug, Llanrug. Dymuna Ellen a Tecwyn, sydd wedi ymgartrefu yn 1 Caradog Place, Deiniolen, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl anrhegion, arian

a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Ysgol Sul Unedig Deiniolen. Bydd yr Ysgol Sul yn ailagor fore Sul nesaf, 7 Medi, am 10.30 yng Nghapel Ebeneser. Edrychwn ymlaen i gychwyn tymor arall a bydd croeso cynnes i blant ac oedolion a garai ymuno o'r newydd.

Newyddion o Ysgol Gwaun Gynfi: Triplau Ysgol. Trefnwyd y triplau eleni gydfynd â gwaith maes y plant.

Bu dosbarthiadau Mrs Griffith a Mrs Hughes yn ymweld â Pili Palas, yn dilyn eu gwaith yn astudio planhigion, trychfilod ac anifeiliaid bach.

Bu dosbarth Miss Jones yn ymweld â Fferm y Foel ym Mrynsiencyn yn dilyn eu gwaith ar anifeiliaid.

I draeth Llangwyfan, ger Aberffraw, yr aeth dosbarth Mrs Jones i astudio creaduriaid y traeth a'r pyllau dŵr er cymharu â chreaduriaid Cwm Derwen, Fachwen, yn dilyn ymweliad cynharach.

I Fôn yr aeth dosbarth Mr ab Elwyn hefyd i Din Lligwy ac Oriel Môn yn dilyn eu gwaith ar y Celtiaid.

Cyngerdd y Carnifal. Cafwyd noson ddifyr iawn ar yr ail o Orffennaf pan fu holl ddosbarthiadau'r ysgol a'r Ysgol Feithrin yn perfformio i festri orlawn yng Nghapel Ebeneser. Cafwyd eitemau o ganu, adrodd, actio a dawnsio ac rydym yn ddyledus i'r holl athrawon am hyfforddi'r plant a bod yn bresennol ar y noson.

Coroni Ceri. Yn dilyn y cyngerdd cafwyd seremoni coroni'r frenhines Ceri yn Frenhines Carnifal Deiniolen am 1997-98 gyda'r Cynghorydd Len Jones yn arwain.

Y Carnifal. Ar ddiwrnod y Carnifal roedd buarth yr ysgol yn orlawn wrth i dorf fawr ddod i weld gorymdaith y frenhines yn cael ei arwain gan Seindorf Arian Deiniolen. Cafwyd perfformiad arbennig gan y Majorettes ifainc cyn cystadlaethau y wisg ffansi.

Pêl-droed 5-bob-ochr. Bu amryw o blant yr ysgol — bechgyn a genethod — yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth bêl-droed. Y buddugwyr oedd — dan 10: Mathew G, Kylie, Justin, Gethin a Nidian; dan 13: Jason, Ceirion, Gavin D, Paul C, a Gavin P.

Ras Deiniolen. Rhaid i ni longyfarch Mr ab Elwyn ar ennill Ras Deiniolen cyn iddo fynd ymlaen dros Fynydd Llandegai ac ennill Ras Tregarth wedyn! Daeth yn drydydd yn Ras Caernarfon hefyd — petai o heb flino cymaint yn y ddwy ras arall efallai y byddai wedi ennill honno hefyd!

Roedd amryw o'r plant yn llwyddiannus yn Ras Deiniolen hefyd — genethod dan 10: 1, Ffion Haf; 2, Claire; 3, Gwenllian; dan 13: 1, Ffion Jones; 2, Donna L. Bechgyn dan 10: 1, Gregory; 2, Justin; 3, Nidian; dan 13: 1, Jason; 2, Ceirion.

Helpa Drysor. Bu'r rhieni ac aelodau o'r staff ar helpa drysor ddifyr iawn ar y 27 Mehefin, yn dilyn helpa drysor y plant ar 4 Mehefin.

Mabolgampau'r Urdd. Bu Mr ab Elwyn, Mr Parry ac amryw o'r rhieni gyda'r plant yn Mabolgampau'r Urdd yng Nghaernarfon ar 9 Mehefin. Mwynhaodd pawb y cystadlu.

Ffarwelio. Ar bnawn lau, 17 Gorffennaf cawyd yr ysgol am wyliau'r haf gyda gwasanaeth gan ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn



W. O. Williams, aelod hynaf Seindorf Deiniolen, gyda Liam ar faes Eisteddfod Genedlaethol Y Bala.

ymadael am Ysgol Brynrefail. Pob hwyl i Ceirion, Emma T., Aneirin, Emma Ll., Jason, Matthew, Andrew, Collette, Chris, Laura, David a Phillip yn Ysgol Brynrefail.

Seindorf Deiniolen. Enillwyr Clwb 200 y Seindorf mis Mehefin — £25: Ms Thomas, Cwm-y-glo; £15: R. A. Lewis, 95 Pentre Helen; £10: Maldwyn Morris, Llanrug. Mis Gorffennaf — £25: John Jones, Ceris, Deiniolen; £15: Helen Lewis, 95 Pentre Helen; £10: Colin North, Rhes Victoria, Deiniolen.

Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y drydedd wobwr yn Eisteddfod Y Bala. Yn niwedd mis Medi bydd y Seindorf yn mynd i Birmingham i gystadlu am Bencampwriaeth Gwledydd Prydain. Pob lwc iddynt. Fe gawn y canlyniad yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Llongyfarchiadau mawr i Lyndsey Vaughan Parry a Sian Ellen Tomos ar eu llwyddiant yn arholiadau Lefel-A. Pob lwc i'r ddwy ohonynt yn y Brifysgol ym Mangor, pryd y bydd Lyndsey yn dilyn cwrs gradd Cerdd a Sian yn dilyn cwrs gradd Cerdd a Chymraeg.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Margaret Ellen Jones, hafan, 7 Porth-y-gogledd ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd drwy ymweliadau, cardiau ac anrhegion tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac wedi iddi ddod gartref. Diolch hefyd i feddygon a nyrsus Ward Tudno.

Dymuna Mrs E. M. Williams, Tegfryn, Ffordd Deiniol ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl flodau hardd, anrhegion a chardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Diolch i Mr D. J. Crawford a staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd am eu gofal a'u caredigrwydd.

Diolch hefyd am y llongyfarchiadau ar dderbyn Medal Gee. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Ellis Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Diolch arbennig i feddygon a staff Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd am eu gofal diflino. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Kathleen, Dilwyn, Ffion a Iola, Angorfa, 29 Bro Eglwys, Bethel, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl ym Methesda. Rydym yn ei werthfawrogi'n fawr iawn, a'r rhoddion ariannol a ddaeth i law ac fe'i trosglwyddir i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Chantelle, Brenhines y Carnifal eleni.

Graddio. Llongyfarchiadau i Alan Pritchard, Llys Awel, ar ennill ohono radd B.A. mewn Gweinyddiaeth Busnes.

Llwyddiant. Llongyfarchiadau i Sara Davies, 1 Tan y Bryn ar ennill ohoni gymhwyster GNVQ gydag arhwyddedd mewn Busnes a Chyllid. Pob lwc iddi hefyd yn ei swydd newydd gydag Emyr Thomas ym Mangor.

Gwellhad. Dymunwn wellhad buan i Mrs Ann Griffiths, Glanrafon Terrace sydd wedi derbyn llawdriniaeth a chael clun newydd.

Cydymdeimlad. Cydymdeimlir yn fawr â theulu'r diweddar Selwyn Davies, 1 Tan y Bryn a fu farw ar Fehefin 23. Bu'n dioddef o afiechyd y Motor Neurone a chafodd gystudd blin dros y misoedd olaf. Dymunwn bob cysur a nerth i'w briod, Shirley, a'u plant Owen, Sara ac Aled yn eu colled enfawr. Un o Drefriw oedd Selwyn yn wreiddiol ond yr oedd wedi ymgartrefu yma yn y Nant ers blynnyddoedd. Bu'n gweithio am flynyddoedd yn ffatri Ferodo yng Nghaernarfon. Gwasanaethodd fel aelod o Dim Achub Mynydd Llanberis. Yr oedd yn ŵr amryddawn; yr oedd yn hoff iawn o baentio lluniau o'r mynyddoedd a rhoddodd wasanaeth gwerthfawr fel organydd yn Eglwys Sant Peris.

Diolch. Dymuna Shirley a'r teulu ddiolch i bawb am y cardiau a'r cydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth. Derbyniwyd rhoddion o £1,000 er cof am Selwyn a rhoddwyd yr arian i Gymdeithas yr Afiechyd Motor Neurone.

Motor Neurone. Diolch yn fawr iawn unwaith eto i bobl y fro am eu cefnogaeth i'r ymdrech i godi arian i Gymdeithas Afiechyd Motor Neurone. Derbyniwyd £425 at yr achos trwy'r tombola yng Ngharnifal Llanberis. Diolch o galon.

Cydymdeimlad. Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r ddiweddar Elizabeth Closs Roberts (Lizzie Bach) a fu farw yn 96 mlwydd oed. Hi oedd yr olaf o blant y teulu Closs-Williams, 3 Tan y Bryn lle bu'n byw gyda'i brawd Griffith cyn symud i Gartref Bron Eryri, Llanberis yn 1990. Bydd ei ffrindiau yn yr ardal yn ei cholli'n fawr. Anfonwn ein cofion at ei mab, John Arthur Roberts; a'i hwyres, Elizabeth (Janet) a'i gorwyres, Bethan.

Diolch. Dymuna teulu'r ddiweddar Elizabeth Closs Roberts ddiolch am bob neges o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth. Rhoddir pob rhodd a dderbyniwyd er cof amdani i Eglwys Sant Peris.

Carnifal Nant Peris. Cafwyd carnifal llwyddiannus yn y pentref eleni. Dechreuwyd yr wythnos gyda chystadleuaeth pŵl leol yn Ty'n Llan. Bu dros ddau ddwsin o unigolion yn cystadlu am Darian Goffa Selwyn Davies a'r enillydd oedd John Ellis, Nant Peris, yn dilyn ffeinal gyffrous iawn yn erbyn Alan Pritchard. Roedd yn noson hwyliog a llwyddiannus iawn.

Cafwyd Noson Cwis yn Ty'n Llan nos Lun, 21 Gorffennaf. Trefnwyd y noson a'r cwestiynau caled gan Meirion Griffiths a hoffem ddiolch iddo am ei gefnogaeth caredig. Unwaith eto cafwyd llawer o gystadleuwyr ac enillwyd y wobr o £20 oedd 'Tim A'.

Er nad oedd yr haul yn gwenu ar y nos Wener roedd y Carnifal ei hun yn llwyddiant mawr. Daeth nifer fawr i gefnogi'r achlysur ac i gystadlu yn y cystadlaethau gwisg ffansi a'r mabolgampau. Diddanwyd y dorf gan Seindorf Arian Deiniolen a dawnswyr Morris Llanberis, a chafwyd perfformiad gymnasteg gan Nora a Gwen. Roedd stondinau amrywiol ar y cae gan gynnwys castell neidio, reidio moto-beic a pheintio wynebau ac mae'n siŵr fod pawb wedi mwynhau crwydro o fan i fan.

Beirniad y wisg ffansi ac a fu'n



Genedigaeth. Llongyfarchiadau i Sian a Colin Sibley, Ceunant ar enedigaeth mab bach, Jordan Lloyd, ar Awst 21ain. Mae'n siŵr bod Jessica yn falch o'i brawd bach newydd.

Brysiwch Wella. Dymunwn wellhad buan i Mrs Alice Searell Jones, 4 Nant Ffynnon sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei llygaid. Croeso gartref a brysiwch wella.

Diolch. Dymuna Chantelle ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a gafodd fel Brenhines Carnifal Nant Peris eleni. Hefyd diolch i Nain am wneud y ffrog brydferth, i Michelle am wneud ei gwallt, ac i Gwen, Brenhines Carnifal Llanberis a phwyllgor Canrifal Nant Peris. Ac wrth gwrs diolch i Mam a Steve am bob dim.

crafu pen dros y canlyniadau oedd Dr Pamela Jones; Elwyn Wilson; Noel Davies; Chantelle, brenhines Carnifal Nant Peris; a Gwen, brenhines Carnifal Llanberis a'u morynion a'u gweision. Arweiniwyd y cyfan gan Gwynedd Roberts. Hoffem ddiolch iddynt oll am eu cefnogaeth. Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb a fu'n gyfrifol am stondinau ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i llwyddiant y noson. Diolch.

Bydd elw'r wythnos yn cael ei rannu rhwng Tŷ Enfys, Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd a Gwasanaeth Ambiwlans St. Ioan.

DRAENOG



Mae yna Garnifal dda yn Nant Peris bob blwyddyn. Cafwyd fflagiau i'w taenu ar draws y stryd i roi dipyn o liw i'r achlysur. Ac mae'n siŵr bod pawb yn falch i'r ddau oedd mor barod i ofalu am y gwaith o godi'r fflagiau. Diolch i Cheryl a Steve am eu gwaith caled. Roedd y fflagiau'n werth i'w gweld yn chwifio'n braf yn yr awel ac yn harddu'r stryd . . . nes i'r bws deulawr cyntaf gyrraedd a llusgo'r fflagiau ar ei ôl. Bydd y ddau'n flach o gael benthgys ysgol uwch y flwyddyn nesaf!

Dyma ganlyniadau cystadlaethau gwisg ffansi —


(1) 0-3 bl. Nant Peris: 1, Robat Henri Owen; 2, Ariann a Jessica, Sioned a Katie; 3, Gareth Pritchard. Agored: 1, Marek Meleri Morris a Lowri Mai Williams. (2) 4-5 bl. Nant Peris: 1, Gethin Pritchard; 2, Miriam a Manon Pritchard. Agored: 1, Elin Ann; 2, Rhodri a Dyfrig. (3) 6-8 bl. Nant Peris: 1, Jaco Mullane a Gwenno Pritchard. Agored: 1, Rhian Lyn Morris; 2, Gwion Rhys Jones; 3, Meical Hughes Williams. (4) 8-11 bl. Nant Peris: 1, Bleddyn Jones a Norah Mullane. Agored: 1, Ceri Bryn Morris; 2, Einir Morris ac Amelia Jane; 3, Alaw Cerris ac Elin Mai Jones. (5) 11 bl a throsodd Agored: 1, Nia Wyn Morris a Lois Roberts. (6) Oedolion: 1, Anne Jones; 2, Anne Cumberton; 3, 'Bill & Ben'. (7) Babi Bochgoch: pawb yn gyfartal. (8) Gliniad codog: 1, Gareth Jones. (9) Het wedi'i haddurno: 1, Steve Preston; 2, Einir Morris; 3, Ceri Bryn Morris.

Mabolgampau — (1) Ras o dan 5: 1, Dyfrig; 2, Rhodri; 3, Siân. (2) 5-8: 1, Ian; 2, Gwen; 3, Gwyn. (3) 9-11: 1, Gwen; 2, Elin a Ceri; 3, Lauren. (4) Oedolion: 1, Siôn Williams; 2, Gwen Williams. Ras deircoes: 5-8: 1, Ceri a Rhian; 2, Daniel ac Alwyn. (6) 9-11: 1, Sioned ac Alaw; 2, Nia a Dafydd Morris. (7) Oedolion: 1, Sioned ac Alaw; 2, Nia a Dafydd; 3, Gwen a Norah. Raffl: Noson pŵl — 1 (Vodka) Margaret Griffiths; 2 (£10 petrol) Meirion Griffiths; 3 (Lager) Andy Durham. Noson Gwis — 1 (Gin) David Ellis; 2 (£10 petrol) John Jackson; 3 (Lager) Siân Sibley. Y Raffl Fawr — 1 (dau docyn gan gwmni Rheilffordd yr Wyddfa) Mrs Hefina Jones; 2 (Hamper) Gwen Griffiths; 3 (Dau ginio Sul yng Ngwesty Fictoria) Mrs Eurwen Nesbit; 4 (Champagne) Mrs Valerie Jones; 5 (Vodka) Mrs Betty Humphries; 6 (tegan meddal) Alaw a Gwen; 7 (Whiskey) 871301; 8 (£10 Garej Beran) John Paul; 9, (£10 Woolworths) Rita Morris; 10 (£10 Fachell) 870218; 11 (cant o lo) I. Sellers; 12 (£5 Becws Eryri) Heddwen Pritchard; 13 (£5 Argos) Jane; 14 (Hamper llysiau a ffrwythau gan V. J. Jones) Nancy Morris. Dyfalu enw'r tedi: Eric Thompson. Dyfalu faint o felysion: Renee Mullane. Dyfalu pwysau'r oen: Heather Lynne.

C.P.D. LLANBERIS 1997-98 — Enillwyr Tarian yr Eco



'Hwyl cyn Stêm, Old Boy . . .'



Gwyliau hamddenol fuo fo . . . nes i'r wraig afael yn y llyw. Wedi taro cwch hwyliau, dyna'i heglu hi i lawr yr afon gan obeithio nad oedd digon o awel i'r llall eu dilyn.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Llongyfarchiadau i Bethan, Dôl Afon ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed; hefyd i Nerys Williams, Bwlch ar ennill gradd HNC yng Ngholeg Wrecsam.

Cydymdeimlad. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Gwyneth Chick, Rhos-y-ffin a Mr Hywel Williams, Nant Forgan yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith yn Nhregarth.

Marwolaeth. Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs S. E. Jones, Llanrug (Nyrs Beth). Cofiw'n yn y Cwm amdani yn dechrau ei gyrfa fel nyrs bentref ac mor barod ydoedd ei chymwynasau bob amser.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w phriod Hefin a'r meibion John, Mark a Tudor yn eu profedigaeth lem.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Mair Williams a'r teulu, Elidir View yn eu profedigaeth o golli brawd, Mr Evie Davies (Evie Glo) yng Ngheunant, Llanrug.

Adref o'r Ysbyty. Yn ystod yr wythnosau diweddaf bu Mrs Jean Hughes, 2 Bryn Gro; Mr Robin Price a Mrs Enid Price, Stryd Newydd; a Mr Hywel Williams, Nant Forgan yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati


BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Diwedd y tymor diwethaf daeth yr Ysgol Feithrin i Ben. Cyflwynwyd rhoddion i'r ddwy athrawes. Arwyn, bachgen hynaf yr ysgol, gyflwynodd flodau i Mrs Ann Jones; a Luke, plentyn ieuengaf yr Ysgol Feithrin, gyflwynodd flodau i Mrs Gwenda Harding. Diolch i'r ddwy am eu holl waith.

CROESAIR MEDI



ENW

CYFEIRIAD

AR DRAWS

1. Fe welir un math ar fwrdd gyda llwyth o nadroedd (5)
3. Daw lwc dda o ddarganfod un â phedair rhan i'w deilen (7)
9. Lle i gadw pethau gwerthfawr (8)
10. Y weithred o yrru drwy rym, neid yr arth yn methu (9)
11. Dŵr iddo fe; mae mewn poen (8)
12. Ar ---. Grŵp gwerin sy'n cael tâl am ei wasanaeth (3)
13. Rhai sy'n perthyn i wlad arbennig (10)
17. Hanner deiet Ioan Fedyddiwr yn yr anialwch (10)
21. Yr 1 ar draws '.... rad Sabbothol' yn ôl yr emynydd (3)
24. Hel straeon (8)
25. Dymunwr yn chwalu Llŷs y Wiwer (9)
26. Materion cyllidol loria' Ann (8)
27. Yr 1 ar draws gyntaf (7)
28. Yr 1 ar draws ar ôl gadael yr 1 ar draws (5)

I LAWR

1. Y safle a welir yn ynys tad Lowri (6)
2. Yr hyn a wneir ym mhob 1 ar draws (7)
3. Yr hyn a wnaed i drwyn y tarw er mwyn cael trefn arno (7)
4. Coed gwyrdd (5)
5. Rhywbeth seimlyd o dir y ledi (8)
6. Y flwyddyn nesa (3,3,3)
7. 28 ar draws arall, y fwyaf? (9)
8. Yr ail 1 ar draws (3)
14. At Ann, yng Ngwastadnant, y bydd y trigolion yn mynd a'r newyddion (4,5)
15. Fel mae 10 a 12 yn y stryd fel arfer (4,5)
16. Nid yw ci Gwyddel yn dweud y gwir (8)
18. Y nwy sy'n sigo Cen (7)
19. Y drydedd 1 ar draws (6)
20. Rhewlifol (7)
22. Mae'r gog lac lac yn fudr (6)
23. Mae tri o'r rhain ym mlwyddyn 1 ar draws (5)

AR WERTH
STÔF BABY BELLING
FEL NEWYDD

Pris: £65
Cysylltwch â 872276

ATEBION CROESAIR GORFFENNAF

Cafwyd pump ar hugain ymateb i groesair mis Gorffennaf a'r rheiny yn llythrennol o'r pedwar cyfeiriad pell — un hyd yn oed o Awstralia!

Y pedwar cyfeiriad oedd thema'r croesair ac fe geisiwyd rhoi ychydig o arweiniad drwy gyfeirio at y ffaith fod iddynt i gyd lythyren wahanol yn y Saesneg (NEWS), h.y. newyddion y Sais tra nad oes ond dwy yng Nghymraeg (GDGD).

O'r pump ar hugain mae tri sydd â mwy nag un camgymeriad ynddynt ac mae'r gweddill yn rhannu'n dwit i ddau fwndel, yn dibynnu ar eu hymateb i 22 ar draws.

'Mae'r Sais yn mynd hanner ffordd rhwng Gogledd a Gorllewin', h.y. y Gogledd-Orllewin — GO — sef mynd yn Saesneg. Dyna'r ateb cywir ac nid NW (North West) fel y tybiodd 13 ohonoch.

Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Olwen Owen, Llanberis; N. Hughes, Cwm-y-glo; Mary Davies, Waunfawr; Mabel Parry, Porthmadog; Chris Roberts, Llanrug; Megan Wyn Jones, Bangor; Mair Evans, Caernarfon ac enillydd y mis yma, sef Hywel Griffith, 40 Bennett Street MOE, Victoria, Awstralia 3825 oedd y rhai sy'n gywir. Llongyfarchiadau i chi.

Gobeithio y cawn yr un ymateb i'r croesair hwn. Wedi'i gwblhau anfonwch at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon erbyn 22 Medi os gwelwch yn dda.



DYDDIADUR MIS MEDI

- 5. Gwener** **WAUNFAWR:** Noson o wyllo'r sêr ac anifeiliaid y nos ym Mharc Natur Antur Waunfawr am 8 o'r gloch.
- 7. Sul** **DEINIOLEN:** Yr Ysgol Sul Unedig yn aildddechrau am 10.30 a.m. yn Ebeneser.
LLANBERIS: Ysgol Sul Capel Coch yn aildddechrau am 2 o'r gloch.
- 9. Mawrth** **PENISARWAUN:** Yr Ysgol Sul yn aildddechrau, 10 a.m.
- 10. Mercher** **LLANRUG:** Merched y Wawr yn cynnal Ecstrafagansa am 7.30 p.m. yn Neuadd yr Ysgol Gynradd.
- 11. Iau** **BETHEL:** Merched y Wawr am 7.30 p.m. yn yr Ysgol.
DEINIOLEN: Cyfarfod y Chworiydd yn Ebeneser am 2 o'r gloch. Sgwrs gan Mrs Olwen Williams, Tudweiliog.
DINORWIG: Cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30 p.m.
BRYNREFAIL: Cymdeithas y Chworiydd yng nghwmni Mrs Ceinwen Williams, Caernarfon.
- 14. Sul** **DEINIOLEN:** Cyngerdd yn Eglwys Crist gyda chôr, seindorf ac unawdwyr.
- 15. Llun** **DEINIOLEN:** Cyfarfod cyntaf Merched y Wawr, sgwrs gan Mrs Mary V. Jones. Croeso i bawb.
- 22. Llun** **LLANBERIS:** Noson yng nghwmni Lleisiau'r Mignedd yn festri Capel Coch.
DEINIOLEN: Cyfarfod cyntaf y Gymdeithas Lenyddol yn y Caban am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.
- 27. Sadwrn** **WAUNFAWR:** Ras yr Antur am 2 o'r gloch o'r Ganolfan.
YR ARDAL: Sbri'r Ysgol Sul yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

RHODDION

£10: Clwb Ffermwyr Ifainc Caernarfon; John a Marion Roberts, Bryn Mel, Llanberis; Mrs Ena Jones, 3 Coed y Ddôl, Llanberis; Teulu Llwyn Eithin, Bethel; Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Er cof am Eric Roberts, Dakota, Llanberis gan ei deulu.

£5: Mrs Mary Davies, Waunfawr; Mrs Menna Byrne, Aberhonddu; Mrs Nan Owen, Llanberis; Mr a Mrs Andrew Griffiths, Dinorwig; Mrs M. Owen, Waunfawr; Teulu Graianfryn Waunfawr; Huw Tegid Roberts, Arwel, Llanrug; Ann Thomas, Buarthau, Llanrug; Miss Beryl Owen, 8 Maes Derlwyn, Llanberis; Mrs Mary Thomas, Gwynant, Olgra Terrace, Llanberis; Moreen ac Eddie Lennon, Plas Tirion, Llanberis; Elen a Tecwyn, Caradog Place, Deiniolen; Margaret Ellen Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen; Mrs E. M. Williams, Tegfryn, Ffordd Deiniol, Deiniolen; Kathlee a Dilwyn a'r teulu, Angorfa, Bro Eglwys, Bethel; Mr a Mrs Hugh Roberts, Hendre Park, Caernarfon; Mrs Lowri Prys

Roberts Williams, Godre'r Coed, Brynrefail.

£3: Mrs Beryl Dawes, Plymouth; Mrs Ellen Wright, Tregarth; Mr E. Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

£2: Elizabeth Evans, Blaen Parc, Bethel; Teulu Edward Rogers, 30 Stryd Newton, Llanberis; Teulu Rheon Wyn Roberts, 22 Stryd Goodman, Llanberis; Gwenan Haf, Tir na n-Og, Dinbych (Dwyros, Waunfawr gynt), John Llywelyn Williams, Penygolwg, Deiniolen.

DRAENOG

Sŵn brefu o'r CEFN ddeffrôdd cyfaill o Fethel ganol nos. Aeth draw i'r ffarm i weld beth oedd achos yr holl gythrwf. Roedd drws y tŷ yn agored, ond er pob gweiddi a churo ddaeth neb i'r golwg. Galwodd yr heddlu ac fe ddaeth y plismyn yno i wneud eu hymchwiliadau. Wedi mynd i'r tŷ daeth y plismyn o hyd i'r ffarmwr a'i wraig yn cysgu'n braf yn y llofft. Tybed ai sŵn chwyrru'r ffarmwr oedd y brefu mawr a glywyd, ynteu oes angen WILIA AM ARTH YR ardal?

GWASANAETH TRYDANOL

ERYRI
ELECTRICAL
FRON

- ★ AIL WEIRIO
- ★ CAWODYDD
- ★ GOLEUADAU DIOGELWCH
- ★ LARWM LLADRON
- ★ CYNNAL A CHADW

DEINIOLEN (01286) **870858** **SYMUDOL** 0467 774 326

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

CHWARAEON

Y DARIAN AETH I'R DARANS TARIAN YR ECO 1997

Gyda chydweithrediad parod y tri thîm, cafwyd cystadleuaeth lwyddiannus iawn yn ystod wythnos olaf mis Gorffennaf. Barn y tri thîm oedd fod y gystadleuaeth yn gallu bod yn elfen bwysig yn eu paratoadau at ddechrau'r tymor. Gan fod rheolau y 'darian' yn galluogi'r tîmau i ddefnyddio carfannau mwy nag arfer, roedd hefyd yn gyfle i'r rheolwyr arbrofi gyda gwahanol systemau. Gwirion iawn fyddai ceisio darllen gormod i mewn i'r canlyniadau a darogan sut dymhorau gaiff y tîmau. Yn amlwg — fel y buasai rhywun yn disgwyl — Llanberis oedd y tîm cryfaf o ddigon. Mae cymysgedd dda o brofiad a ieuencid yno. Maent yn gadarn iawn yn y cefn gyda chwaraewyr sy'n gallu trafod y bêl yng nghanol y cae, a blaenwyr sy'n gwybod ble mae'r rhwyd. Fe godwyd ein gobeithion o bwyntiau yn erbyn tîmau y dylid fod wedi eu curo. Gobeithio fod y wers wedi'i dysgu gan fod carfan brofiadol yno eleni.

Y bencampwriaeth? Efallai. Cwpan? Mwy na thebyg. Yn ôl y dystiolaeth mae argoelion gwell yn Llanrug eleni. Bu tymhorau llwm ar Eithin Duon ond y tu ôl i'r llenni roedd y dwylo parod yn gweithio'n galed i feithrin y tîmau ieuencid. Mae sawl un o'r garfan ieuencid erbyn hyn yn ymladd am le yn y tîmau hyn. Llanrug yn sicr oedd y tîm ieuengaf o'r tri o bell ffordd. Mae cryn ddawn gan rhai o'r ieuencid hyn a braf oedd nod eu bod trwy eu hyfforddi yn ceisio chwarae pêl-droed yn hytrach na chic a chwrs. I'r perwyl hwn, llongyfarchwn dirmon Llanrug hefyd am gyflwr gwyh y maes. Mae mwy o le a wyneb da yn mynnu fod y tîmau yn chwarae gêm basio'r bêl arno. Yn sicr, fe fydd gan reolwyr Llanrug broblem braf yn dewis pwy fydd yn y tîm cyntaf a phwy fydd yr ail. Mae cystadleuaeth am lefydd mewn tîm yn cryfhau unrhyw glwb. Credaf nad yw'r 'dyddiau da' yn bell o ddychwelyd i Eithin Duon. Mae'r ieuencid hyn yn haeddu cefnogaeth — fel mae pob tîm lleol.

Ni welwyd unrhyw wynebau newydd yng ngharfan Deiniolen. Cafwyd gêm arbennig o dda yn Llanrug ond daeth ambell wendid i'r wyneb yn y gêm yn erbyn Llanberis. Fel erioed, tîm ymosodol yw Deiniolen, ond mae'n rhaid iddynt roi sylw i'w amddiffyn pan nad yw'r bêl ganddynt. Araf iawn yw nifer o'r chwaraewyr yn 'dod yn ôl' i wneud y gwaith amddiffynnol. Bydd hyn yn broblem yn erbyn tîm sy'n 'torri'n gyflym' ac yn rhedeg atynt. Rhaid nodi agwedd Dai Jones tuag at y clwb. Roedd ei brofiad yn amlwg a'r tafladau hir yn elfen bwysig — efallai yn rhy hanfodol — o'u ymosod. Rhaid ei ganmol am y ffordd y mae'n ceisio addysgu y chwaraewyr o'i gwmpas. Yn sicr bydd Gareth Jones yn un fydd yn elwa os bydd yn barod i wrando ar yr 'hen ben'. Yn sicr bydd yn rhaid i John Williams arwyddo ambell chwaraewr neu fe fydd y tymor yn rhy hir i rai o'r 'hen goesau'. Wedi dweud hynny mae ysbyrd arbennig



Y Golygydd Chwaraeon yn cyflwyno'r darian i gapten tîm Llanberis, Terry Saynor.

yn perthyn i'r tîm yma, a chyda rhai ifanc fel Barry John Thomas yn barod i redeg, nid yw'n hollol ddu.

I orffen, llongyfarchiadau i'r tri 'doctor dŵr' sy'n gysylltiedig â'r tri thîm. Mae hyn yn galonddid i unrhyw glwb ac yn sicr yn meithrin hyder. Ymlaen i'r 'tymor go iawn' felly.

HANESION Y GÊMAU

Ar y nos Lun, ar gae'r Ddôl y chwaraewyd y gêm gyntaf rhwng Llanberis a Llanrug. Anwastad yw'r wyneb yma a chaled iawn wedi'r tywydd poeth. Braf nodi na chafwyd anaf. Roedd Llanberis yn rhy brofiadol a chorfforol i dîm ieuanc (a Steven Williams) Llanrug. Wedi chwarter awr roedd y Locos ddwy gôl ar y blaen. Y gyntaf, a gymerwyd yn gelfydd gan Dafydd Jones, sy'n sgoriwr goliau wrth reddf. Mae'n redwr da oddi ar y bêl sy'n creu lle i'w gydchwaraewyr. Daeth yr ail o daran o ergyn gan Terry Saynor. Ceisiodd Llanrug chwarae pêl-droed, ond prin oedd y syniadau am sut i gyrraedd y blwch cosb. Lladdwyd y gêm gyda dwy gôl ym mhym munud cyntaf yr ail hanner. Dafydd Jones gyntaf ac yna Nigel Phillips (yn chwarae ar yr asgell) yn rhwydo o'r smotyn wedi iddo gael ei lorio. Yn anffodus ni all Nigel gymryd ei le yn y gôl ar hyn bryd gan ei fod yn gorfod cael triniaeth lawfeddygol i'w fraich.

Yn sicr ar y nos Fercher y cafwyd gêm orau ac agosaf y gystadleuaeth gyda Deiniolen yn trechu Llanrug o 4-3 ar gae Eithin Duon. Tipyn o gêm oedd hon, yn gystadleuol fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl (lwcus iawn fod yno ddyfarnwr go lew!). Dwy gôl yr un ar yr hanner — dwy gôl Michael Owen i Lanrug ac Alwyn Williams ac Arwel Hughes o'r smotyn yn unioni'r sgôr. Roedd perfformiad Michael Owen yn yr hanner cyntaf — yn enwedig ei symud oddi ar y bêl — yn un o

MANION O'R MYNYDDOEDD

PENCAMPWR PRYDAIN


Daeth cryn lwyddiant i nifer o redwyr lleol yn ystod yr haf eleni gydag Alun Vaughan o Lanberis yn arwain. Ym Mhencampwriaeth Athletau Lloegr (sy'n

cyfateb i Bencampwriaeth Prydain) yn Bedford, enillodd Alun y ras 5,000 metr i rai dan 20 oed. Dyma'r tro cyntaf o bosib i unrhyw un o fro'r Eco, neu hyd yn oed o'r hen Arfon, i ddod yn bencampwr Prydeinig mewn cystadleuaeth athletau. Ras dactegol oedd hon ac, yn anffodus i Alun, er iddo ennill doedd yr amser ddim yn ddigon cyflym i'w gynnwys ym mhencampwriaethau Ewrop a gynhaliwyd yn ddiweddarach yn Slovenia. Ond er y siom, fe'i gwahoddwyd i gynrychioli tîm Prydain mewn ras arbennig yn Awstralia, sef ras 14 cilometr o Sydney i Surf. Daeth Alun yn drydydd yn ei gategori oedran. Yn ystod mis Medi mae'n gobeithio cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd sy'n cael eu cynnal yng Ngweriniaeth Czech.

CYNRYCHIOLI CYMRU

Yn ei dymor cyntaf yn ôl wedi misoedd maith o ddioddef anafiadau, mae Gwynfor Owen wedi 'rhedeg' yn syth i mewn i dîm Cymru. Mae rhywun yn cael ei demtio i ddweud 'fel arfer' — roedd yn aelod o dîm Cymru yn Ras yr Wyddfa ac er na chafodd gystal hwyl arni ag arfer, fo oedd y trydydd Cymro yn y ras, a'r rhedwr lleol cyntaf. Ar sail ei ganlyniadau dros y misoedd diwethaf fe'i dewiswyd i gynrychioli Cymru (fel Alun) ym Mhencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd yng Ngweriniaeth Czech.

Dymuna'r Eco bob llwyddiant i'r ddau a gobeithio y cawn fwy o hanes y pencampwriaethau hyn yn y rhifyn nesaf.



Gwynfor Owen

Y CANLYNIADAU

LLANBERIS 4	LLANRUG 0
Dafydd Jones (2)	
Terry Saynor	
Nigel Phillips (c.g.)	
LLANRUG 3	DEINIOLLEN 4
Michael Owen (2)	Alwyn Williams (2)
Bedwyr Evans (c.g.)	Arwel Hughes (c.g.)
	Barry John Thomas
DEINIOLLEN 2	LLANRUG 9

Y TABL TERFYNOL

	Ch	E	GD	GE	P
LLANBERIS.....	2	2	13	2	6
DEINIOLLEN.....	2	1	6	12	3
LLANRUG.....	2	0	3	8	0

uchafbwyntiau'r gystadleuaeth. 3-2 i Ddeiniolen wedi 68 munud gyda'r brwdfrydig Barry Thomas yn rhwydo. Yn ôl y daeth Llanrug a Bedwyr Evans yn rhwydo o'r smotyn. Dim sôn am setlo am gêm gyfartal. Y ddau gôlgeidwaid yn arbed yn dda a'r dorf yn codi'i llais. Yna, pedwar munud o'r diwedd daeth blerwch i amddiffyn Llanrug ac Alwyn Williams yn rhwydo y gôl dyngedfenol. Tipyn o gêm oedd hon ac yn siŵr bydd pethau'n poethi pan fyddant yn cyfarfod yn y gynghair.

Roedd y llwyfan wedi'i osod am y gêm i setlo'r darian yn Neiniolen ar y nos Wener. Yn anffodus un ochrog iawn oedd y gêm, gyda Llanberis yn llawer rhy gryf. Hyd yn oed ar y cae cul roedd Llanberis yn gwneud defnydd o'r esgyll. Tueddu i fynd i lawr y canol roedd Deiniolen ac roedd amddiffyn Llanberis yn rhy gorfforol iddynt. Cafodd Cai Lloyd Williams gêm i'w chofio gan rwydo tair gôl — un ohonynt yn chwip o ergyn o ymyl y cwrt cosbi. Roedd Llanberis yn amlwg am dalu't pwyth yn ôl ar ôl colli yn Neiniolen yng Nghwpan yr Arfordir y llynedd. Diolch i John Baston am ddyfarnu'r gêm a gobeithio na wnaeth y cardiau melyn olygu 'gwaith papur' iddo wedi iddo fynd gartref. Diolch i'r tafarnwyr lleol am eu croeso a'r lluniaeth i'r tîmau ar ôl y gêm.

Diolch felly i bwyllgorau'r tîmau am eu cefnogaeth barod. Wedi talu costau'r tlysau fe gyflwynir £100 i gronfa Ysgol Brynrefail. Erbyn y tymor nesaf fe fydd pedwerydd tîm ym mro'r Eco gyda chychwyn tîm Waunfawr. Bydd yn rhaid trafod felly beth fydd amseriad a fformat y gystadleuaeth y tymor nesaf, Tlws yr Eco a Tharian yr Eco. Mae'r Eco yn sicr yn rhoi arweiniad. Diolch am eich cefnogaeth.